



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**
www.daera-ni.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Ymgynghoriad ar ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwasttraff

Dyddiad: Rhagfyr 2023

Fersiwn: XXXXXX/R (rhif cod y prosiect / os oes angen)

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyreff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd hi.



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn

[insert contact details]

PB [insert PB number]

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad.....	5
Sero Net	6
Gwastraff gweddilliol.....	6
Cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR).....	6
Egwyddorion ar gyfer gweithredu System Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr effeithiol.....	7
Pwrpas yr ymgynghoriad hwn	8
Ehangder daearyddol a diffiniadau.....	9
Cynulleidfa	10
Ymateb i'r ymgynghoriad.....	10
Hyd	11
Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben	11
Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori	11
Cwestiynau amdanoch chi	12
Cynigion polisi.....	13
1. Casglu mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi.....	13
Cefndir.....	13
Yr achos dros newid.....	14
Cyfathrebu	15
Ein cynigion ar gyfer casglu mwy o offer trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi.....	15
Cwestiynau.....	17
2. Cynyddu seilwaith casglu dosbarthwyr.....	20
Cefndir.....	20
Yr achos dros newid.....	20
Ein cynigion ar gyfer cynyddu seilwaith casglu dosbarthwyr	21
Cwestiynau.....	24
3. Rhwymedigaethau newydd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein a Thai Cyflawni.....	26
Cefndir.....	26
Yr achos dros newid.....	27
Ein cynigion am rwymedigaethau newydd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein a thai cyflawni	28
Cwestiynau.....	28
4. Delio ag effeithiau amgylcheddol cynnyrch fepio.....	29
Cefndir.....	29

Yr achos dros newid	30
Cwestiynau.....	31
5. Llywodraethu'r system, creu Gweinyddwr Cynllun Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a dangosyddion perfformiad	31
Cefndir.....	31
Yr achos dros newid.....	32
Ein cynigion ar gyfer creu rôl newydd, Gweinyddwr Cynllun, a mesur perfformiad cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y dyfodol.....	33
Cwestiynau.....	35
Rhestr o'r cwestiynau	37
Amdanoch chi	37
Casglu mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi	37
Cynyddu seilwaith casglu dosbarthwyr	40
Rhwymedigaethau newydd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein a Thai Cyflawni	42
Delio ag effeithiau amgylcheddol cynnyrch fepio	43
Llywodraethu'r system, creu Gweinyddwr Cynllun Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a dangosyddion perfformiad	43
Geirfa.....	46
Rhestr o ffynonellau tystiolaeth	49

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwmo i ddiogelu'r amgylchedd. Rydym i gyd eisiau gwneud:

- ein haer yn burach
- ein dŵr yn ianach
- ein tir yn wyrddach
- ein bwyd yn fwy cynaliadwy
- ein hadnoddau'n rhai a reolir yn fwy effeithlon

Rydym eisiau adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a'i adael mewn cyflwr gwell nag yr oedd cynt. Rhan allweddol o lwyddiant yr uchelgeisiau hyn fydd sut rydym yn mynd i'r afael â gwastraff.

Mae [Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Lloegr](#) yn nodi sut byddwn yn cadw ein stoc o adnoddau materol drwy wneud y canlynol:

- lleihau gwastraff
- hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau
- symud tuag at economi gylchol, lle mae deunyddiau'n cael eu defnyddio am gyfnod hirach

Yn ogystal â nodi ymrwymadau a chamau gweithredu cadarn Defra dros y blynyddoedd nesaf, mae'r strategaeth hefyd yn rhoi cyfeiriad clir a hirdymor ar gyfer polisi, sy'n cael ei adlewyrchu yng [Nghynllun Gwella Amgylcheddol 2023 ar gyfer Lloegr](#).

. Mae Cymru wedi cyflawni rhai o'r cyfraddau ailgylchu trefol uchaf yn fyd-eang. Mae ei strategaeth ['Mwy nag Ailgylchu'](#) yn nodi nifer o gamau gweithredu allweddol i gyflawni'r amcan o sicrhau dim gwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Mae'r camau gweithredu hyn yn canolbwyntio ar newid sut rydym yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys hyrwyddo:

- aildefnyddio
- atgyweirio
- ailweithgynhyrchu
- ailgylchu

Mae strategaeth economi gylchol Llywodraeth yr Alban, ['Making Things Last'](#), a gyhoeddwyd yn 2016, yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu i symud tuag at economi fwy cylchol. Yn hyn o beth, mae'n gosod cyfres o dargedau uchelgeisiol i hybu cylcholdeb. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar gael, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban [Fil yr Economi Gylchol \(Yr Alban\)](#) ym mis Mehefin 2023. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu economi sy'n:

- lleihau'r galw am ddeunyddiau crai
- dylunio cynnyrch i bara cyn hired â phosibl
- annog aildefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu

Yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddwyd y [Strategaeth Economi Gylchol ddrafft ar gyfer Gogledd Iwerddon](#) yn fuan yn 2023. Mae ailystyried ein defnydd o adnoddau yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni sero net. Mae Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi strategaeth rheoli gwastraff newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon. Bydd y strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol, drwy ystod o gamau gweithredu a thargedau dros y 6 blynedd nesaf.

Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Sero Net

Yn 2019, y DU oedd y wlad fawr gyntaf i ddeddfu ar gyfer allyriadau carbon **sero net** erbyn 2050, gyda'r Alban yn gosod targed cyfreithiol rwymol ar gyfer 2045. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i lywodraethau lunio polisiâu a rheoliadau sy'n dylanwadu ar symud yr economi gyfan tuag at sero net.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i leihau gwastraff electronig er mwyn lleihau allyriadau carbon. Mae echdynnu adnoddau ar gyfer cynhyrchion electronig, a'u gweithgynhyrchu, yn cyfrannu at dros 50% o'u hallyriadau CO₂ gydol eu hoes. Mae'r cynnydd mewn pryniant nwyddau electronig yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at allyriadau ledled y byd. Erbyn 2040, yn seiliedig ar dueddiadau presennol, amcangyfrifir y gallai'r allyriadau byd-eang sy'n deillio o gynhyrchu a defnyddio electroneg godi i lefel sy'n uwch na hanner yr hyn sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth byd-eang heddiw.

Gwastraff gweddilliol

Gwastraff nad yw'n cael ei gasglu ar wahân i'w ailgylchu yw gwastraff gweddilliol. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod targed cyfreithiol-rwym i leihau gwastraff gweddilliol y pen (ac eithrio gwastraff mwynau mawr) yn Lloegr 50% erbyn 2042 o'i gymharu â lefelau 2019. Bydd hyn yn golygu gostyngiad mewn gwastraff gweddilliol o 574kg y pen yn 2019 i 287kg yn 2042. Ynghyd â'r Diwygiadau Casglu a Phecynnu sydd ar y gweill gan y llywodraeth, bydd y diwygiadau i'r drefn cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar trydanol gwastraff yn allweddol i gyrraedd y targed hwn. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy bolisiau a fydd yn cynyddu hwylustod ac argaeledd casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) i ddeiliaid tai ac yn lleihau faint o gyfarpar trydanol ac electronig sy'n cael ei waredu'n amhriodol mewn gwastraff gweddilliol.

Cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR)

Mae'r system bresennol ar gyfer casglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn briodol yn seiliedig ar 'gydgyfrifoldeb cynhyrchwyr'. Mae cynhyrchwyr offer trydanol ac electronig (EEE) yn cyfrannu'n ariannol ar sail eu cyfran o'r farchnad mewn categorïau cyfarpar penodol. Mae cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y cartref yn cael ei gasglu ar wahân, yn bennaf drwy ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, gyda chynhyrchwyr yn ariannu costau casglu a thriniaeth briodol ers 2007.

Er bod y gwaith o gasglu eitemau mwy fel peiriannau golchi ac oergelloedd yn gweithio'n dda ar y cyfan, mae [astudiaeth ddiweddar](#) yn dangos bod tua 155,000 tonnelli o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff domestig llai yn cael ei daflu i finiau gwastraff gweddilliol bob blwyddyn, sy'n tynnu sylw at yr angen i wneud mwy i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Canfu [astudiaeth ddiweddar ar agweddau ac ymddygiad y cyhoedd](#) fod tua 86% o bobl yn meddwl ei bod yn werth ailgylchu a chymryd yr amser i wneud hynny'n iawn. Fodd bynnag, dangosodd hefyd nad oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o fannau ailgylchu ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, neu eu bod yn cael trafferth cael mynediad atynt.

Rydym am gael eich barn ar sut gallwn ei gwneud yn haws ailddefnyddio ac ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff drwy ehangu'r seilwaith casgliadau presennol i'w gwneud yn fwy cyfleus i'r cyhoedd a busnesau ddelio â'u cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn briodol. Rydym am weld y cymhellion cywir yn cael eu cynnwys yn y system i gefnogi ein huchelgeisiau ehangach o ran economi gylchol, gan leihau faint o gyfarpar trydanol ac electronig sy'n dod yn wastraff yn y lle cyntaf. Hoffem ymestyn yr egwyddorion hyn i gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau a sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Egwyddorion ar gyfer gweithredu System Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr effeithiol

Bydd yr egwyddorion craidd canlynol yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer adolygu cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr presennol a datblygu cynlluniau newydd, a byddant yn berthnasol fel y bo'n briodol:

1. Pennir **canlyniadau, amcanion, targedau a chyfrifoldebau clir** ar gyfer pob cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr i gefnogi buddsoddiad cynllunio tymor hir, ac ymchwil a datblygu gan gynhyrchwyr mewn sectorau penodol a'r sector rheoli adnoddau.
2. **Cynhyrchwyr i dalu'r gost net lawn o reoli eu cynnyrch ar ddiwedd eu hoes** gan gynnwys effeithiau ar yr amgylchedd a chymdeithas er mwyn cyflawni amcanion a thargedau.
3. Defnyddir **ffioedd wedi'u modiweiddio neu fesurau eraill** i annog cynhyrchwyr i wneud penderfyniadau dylunio, cynhyrchu a phrynu mwy cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth gwastraff a'n hadnoddau a'n blaenoriaethau gwastraff. Er enghraifft, efallai y bydd cynhyrchwyr yn talu ffi is am gynnyrch sy'n hawdd ei ailddefnyddio, ei atgyweirio neu ei ailgylchu, a chosb am y rheini nad ydynt.
4. Mae cynlluniau'n cael eu dylunio a'u rhoi ar waith i'w gwneud yn **hawdd i ddefnyddwyr chwarae eu rhan**, boed hynny drwy eu dewisiadau adeg prynu, tra maent yn berchen ar gynnyrch, neu ar ddiwedd ei oes.

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i sut rydym yn disgwyl i'r cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gael eu trefnu. Byddant yn berthnasol fel sy'n briodol i gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr diwygiedig ac yn y dyfodol:

5. **Disgwylir i bob cynhyrchydd dalu i mewn i'r system** naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r pris a godir arnynt gan eraill yn y gadwyn gyflenwi, yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Bydd y taliadau hyn yn gymesur a heb faich gweinyddol diangen.
6. Mae mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r DU i wella tryloywder marchnadoedd ac i osod targedau a chostau, er mwyn hybu effeithlonrwydd a lleihau troseddau gwastraff ar hyd y gadwyn gwerth a sicrhau bod y **costau i gynhyrchwyr yn deg, yn angenrheidiol ac yn dryloyw**.
7. **Bydd y Llywodraeth yn cefnogi mesurau sy'n berthnasol i dargedau ac amcanion cynllun ac yn sicrhau bod costau i Awdurdodau Lleol yn cael eu bodloni lle bo hynny'n briodol**.
8. Dylai mesurau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr **ategu mesurau polisi eraill** sy'n ceisio sicrhau canlyniadau tebyg (fel safonau cynnyrch, meini prawf effeithlonrwydd adnoddau a threth tirlenwi).

- 9. Bydd trefniadau llywodraethu, cydymffurfio a gorfodi priodol** yn cael eu penderfynu ar gyfer pob cynllun unigol, gan na fydd pob cynnyrch neu ddeunydd yn elwa o'r un dull. Fodd bynnag, bydd angen i'r rhain alluogi'r egwyddorion a nodir uchod i gael eu cyflawni.

Rydym am fesur llwyddiant y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff newydd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Rydym o'r farn, pa bynnag fesurau llwyddiant sy'n cael eu mabwysiadu ar gyfer y cynllun, y dylid cael rhagdybiaeth o blaid ymgorffori ffactorau sy'n sbarduno perfformiad cyfartal fesul gwlad (er enghraifft, gosod targedau ar lefel gwlad, lle bo hynny'n briodol). Rhaid i ni hefyd sicrhau y gellir dadansoddi unrhyw fetrigau ychwanegol a ddefnyddiwn ar gyfer mesur perfformiad y system fesul gwlad. Rydym am weld data ac adroddiadau ar lefel fwy lleol er mwyn i ni gael darlun gwell o sut mae'r system yn perfformio a gallwn dargedu ymyriadau priodol mewn meysydd lle gallai lefelau perfformiad fod yn isel.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar ddiwygiadau i Reoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013, sydd â'r bwriad o godi lefelau'r cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir ar wahân i'w aildefnyddio a'i ailgylchu. Rydym am sicrhau bod cynhyrchwyr a dosbarthwyr cynnyrch trydanol ac electronig yn ariannu'r gost net lawn o gasglu a thrin cynhyrchion sy'n wastraff yn y pen draw. Bydd y diwygiadau arfaethedig hefyd yn cefnogi'r ymgyrch i sicrhau economi fwy cylchol drwy sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu dylunio i gael llai o effaith ar yr amgylchedd na'r rheini rydym yn eu defnyddio heddiw, a sicrhau bod cynhyrchion yn parhau i gael eu defnyddio am gyfnod hirach.

Mae ymchwil yn dangos bod diffyg hwylustod ac ymwybyddiaeth yn rhwystr allweddol rhag sbarduno lefelau casglu uwch. Efallai nad yw'r hyn sy'n gyfleus i un person mor gyfleus i un arall. Pan fyddwch yn archebu gan werthwr ar-lein, yn aml gellir danfon nwyddau i'ch cartref neu gallwch eu nôl o fan casglu. Mae ein cynigion yn cynnig dewis tebyg pan fydd y cynnyrch a ddefnyddiwn yn dod yn wastraff.

Bwriedir cyflwyno system casglu gwastraff cartrefi ledled y DU ar gyfer eitemau bach a swmpus. Bydd hynny'n cael ei ariannu'n bennaf gan fewnforwyr a gwneuthurwyr y cyfarpar a ddefnyddiwn. Fodd bynnag, pan fydd teclyn mawr newydd, megis oergell, yn cael ei ddanfon i'ch cartref, rydym yn cynnig y dylai fod yn rhaid i'r gwerthwr fynd â'r hen un oddi yno, os gofynnir iddo wneud hynny, heb godi tâl ychwanegol.

Ond rydym yn cydnabod efallai na fydd gwasanaeth casglu o'r cartref yn addas ar gyfer pob sefyllfa. Er enghraifft, gallai storio fod yn broblem i'r rheini nad oes ganddynt lawer o le. Felly bydd deiliaid tai yn dal i allu mynd â chyfarpar trydanol nad oes ei angen arnynt i'w canolfan ailgylchu gwastraff y cartref leol. Rydym hefyd yn cynnig cryfhau'r rhwymedigaethau presennol a roddir ar fanwerthwyr mawr o ran cymryd cyfarpar yn ôl, er mwyn gallu gollwng eitemau nad oes eu hangen gyda nhw yn rhwydd. Byddai rhwymedigaeth debyg yn berthnasol i werthwyr ar-lein. Yn yr achosion hyn, byddai cynhyrchwyr yn parhau i ariannu costau trin, ailgylchu neu baratoi priodol ar gyfer aildefnyddio eitemau a gesglir gan fanwerthwyr ar fannau gwerthu ar-lein.

Ar ben hynny, rydym yn nodi cynigion i osod rhwymedigaethau newydd ar Farchnadoedd Ar-lein. Yn olaf, rydym am sicrhau bod cynhyrchwyr fêps yn ariannu costau ailgylchu'n briodol pan fyddant yn dod yn wastraff. Mae'r holl gynigion hyn yn cael eu hategu gan asesiad effaith cysylltiedig. Mae asesiadau effaith ar wahân hefyd wedi cael eu cynnal gan Lywodraeth yr Alban.

Mae ein cynigion ar fêps yn cyd-fynd â'r rheini a nodir yn [Creating a Smoke Free Generation and Tackling Youth Vaping](#), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023. Mae'n cynnig camau y bydd y llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael ag ysmegu a fepio ymysg pobl ifanc. Mae'n archwilio cynigion i gyfyngu ar werthiant a chyflenwad fêps tafladwy. Mae'r ymgynghoriad [Creating a smokefree generation and tackling youth vaping: your views](#) yn fyw a bydd yn cau ar 6 Rhagfyr.

Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon, rydym hefyd wedi cyhoeddi cais am dystiolaeth. Mae'r cais am dystiolaeth yn nodi meysydd ehangach i'w diwygio lle nad oes cynigion manwl nac asesiad effaith cysylltiedig wedi cael eu datblygu eto. Serch hynny, rydym wedi nodi rhai meysydd penodol lle byddem yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ychwanegol i helpu i ddatblygu polisi ymhellach cyn ymgynghori ar gynigion ffurfiol ledled y DU, ac mae'r rhain wedi'u hategu gan asesiad llawn o gostau a buddion. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn a'r rheini yn y cais am dystiolaeth yn cynrychioli ein bwriadau ar gyfer diwygio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

Bydd angen datblygu ac ymgynghori ymhellach ar y syniadau amrywiol a nodir yn y cais am dystiolaeth cyn y gellir eu gweithredu. Mae hyn yn golygu na fydd yr holl ddiwygiadau'n cael eu gwneud ar yr un pryd. Yn wir, rhagwelir y bydd diwygiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol cyn gynted â'r flwyddyn nesaf gyda mesurau ar farchnadoedd ar-lein, manwerthwyr yn casglu offer domestig mawr am ddim pan fyddant yn danfon eitem newydd a chyflwyno categori cyfarpar trydanol ac electronig newydd ar gyfer fêps, a drafodir yn y ddogfen ymgynghori. Rhagwelir y bydd y gwaith o gyflwyno'r system casglu o gartrefi yn dechrau o 2026 ymlaen, ynghyd â'r mesurau eraill sydd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori hon. Rhagwelir y bydd cynigion polisi sy'n deillio o'r cais am dystiolaeth yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hwy.

Dylid ystyried y pecyn hwn a'r ymateb dilynol gan y llywodraeth fel adolygiad ac adroddiad o Reoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013 fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 93.

Ehangder daearyddol a diffiniadau

Mae cyfrifoldeb cynhyrchwyr a pholisi gwastraff yn faterion sydd wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth y DU (yn gweithredu ar ran Lloegr) a Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon wedi cytuno i barhau â dull gweithredu ar draws y DU ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr o ran cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Yn unol â hynny, mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan y pedair gweinyddiaeth.

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn sail i benderfyniadau Gweinidog newydd dros Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, neu yn absenoldeb gweinidog, y penderfyniadau hynny y gellir eu gwneud o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon (Ffurio Gweithrediaeth etc) 2022. Mae hyn yn berthnasol i bob cynnig yn y ddogfen ymgynghori. Pan gyfeirir yn y ddogfen hon at Lywodraeth y DU mewn perthynas â materion polisi datganoledig, Llywodraeth y DU sy'n gweithredu ar ran Lloegr a olygir. Felly, mae'r ddogfen hon a disgrifiadau o'r gyfraith bresennol yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cyfeiriadau at Weinidogion yn gyfeiriadau at Weinidogion pob gweinyddiaeth. Mae unrhyw gyfeiriad at 'y rheoleiddiwr' neu'r 'rheoleiddwyr' yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban oni nodir yn wahanol.

Mae'r cyfeiriadau at "Awdurdodau Lleol" yn cynnwys cynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon.

Cynulleidfa

Croesewir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan y canlynol:

- busnesau sy'n ymwneud â dylunio, cynhyrchu a phennu cynnyrch electronig a thrydanol
- busnesau sy'n cynhyrchu cynnyrch electronig a thrydanol ac sy'n gosod y cynnyrch ar farchnad y DU
- manwerthwyr, marchnadoedd ar-lein a mewforwyr cynnyrch electronig a thrydanol
- Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr Electroneg
- sefydliadau sy'n ymwneud â'r sector ailddefnyddio
- sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli ac ailgylchu gwastraff electronig gan gynnwys Awdurdodau Lleol, cwmnïau rheoli gwastraff, broceriaid, delwyr, cludwyr, allforwyr ac ailbroseswyr
- sefydliadau eraill fel sefydliadau proffesiynol ac aelodaeth, Cyrff Anllywodraethol, ymgynghorwyr a mudiadau elusennol sydd â diddordeb yn y ffordd y rheolir gwastraff electronig yn y DU
- aelodau o'r cyhoedd

Ymateb i'r ymgynghoriad

A fydddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein gan ddefnyddio [hyb ymgynghori Citizen Space](#).

Er mwyn ei gwneud yn haws i ddadansoddi, byddai'n well gennym gael ymatebion drwy lwyfan Citizen Space, ond mae opsiynau eraill ar gael isod os oes angen:

Dros e-bost at weee@defra.gov.uk

Ymatebion ysgrifenedig drwy'r post i:

Consultation Coordinator,
Defra 2nd Floor, Foss House,
Kings Pool 1-2 Peasholme Green
York
YO1 7PX

Sylwch, mae'n rhaid i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy'r post fod wedi cyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (x) i gael eu hystyried. Yn anffodus, ni allwn ddadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein ar Citizen Space.

Defra sy'n rheoli'r broses ymgynghori ar ran Llywodraethau Cymru, y DU, yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gallu cael gafael ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarperir drwy hyb ymgynghori Citizen Space. Os hoffech chi anfon copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad at Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth yr Alban, anfonwch e-bost at:

Yr Alban: producerresponsibility@gov.scot

Cymru: ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales

Os ydych chi'n ymateb o Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr bod copi o'ch ymateb hefyd yn cael ei anfon at: EPRTeam@daera-ni.gov.uk

Hyd

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 28 Rhagfyr ac yn dod i ben ar 7 Mawrth.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymateb y Llywodraeth ar wefannau'r Llywodraeth yn www.llyw.cymru, www.gov.uk/defra, www.daera-ni.gov.uk a www.gov.scot

Bydd y crynodeb yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Gall hefyd gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, er enghraifft, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.

Os hoffech i unrhyw wybodaeth, yn cynnwys data personol, yr ydych yn ei darparu i gael ei thrin yn gyfrinachol, nodwch hynny yn glir yn ysgrifenedig, pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad ac eglurwch pam eich bod angen cadw'r manylion yma yn gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond oherwydd y gyfraith, ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn gais i gadw cyfrinachedd.

Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu. Mae [Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra](#) yn rhoi manylion eich hawliau mewn perthynas â thrin eich data personol.

Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori a nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Rheoleiddio Gwell sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at: E-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Neu'n ysgrifenedig i:

Consultation Co-ordinator,
Defra 2nd Floor, Foss House,
Kings Pool 1-2 Peasholme Green
York
YO1 7PX

Cwestiynau amdanoch chi

Mae amrywiaeth eang o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn ymwneud â chyfarpar trydanol a rheoli cyfarpar trydanol gwastraff, neu'n cymryd diddordeb yn y maes hwn. Bwriad y cwestiynau isod yw deall yr amrywiaeth hwn a rhoi eich ymatebion mewn persbectif gyda rhai ymatebwyr eraill.

1. Beth yw eich enw?
2. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

Mae hyn yn ddewisol, ond os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost byddwch yn gallu dychwelyd i olygu eich ymateb i'r ymgynghoriad yn Citizen Space ar unrhyw adeg nes i chi ei gyflwyno. Byddwch hefyd yn derbyn e-bost cydnabod pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

3. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

Rhowch enw'r mudiad, y sefydliad neu'r busnes rydych chi'n ei gynrychioli ac amcangyfrif o nifer y staff y mae'n eu cyflogi. Dewiswch un opsiwn. Os oes mwy nag un categori yn berthnasol, dewiswch yr un sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn eich ymateb.

- corff masnach neu sefydliad arall sy'n cynrychioli busnes
- cynhyrchedd electronig
- Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr
- dosbarthwr (gan gynnwys marchnad ar-lein)
- cwmni rheoli gwastraff
- gweithredwr neu ailbroesydd gwastraff
- allforiwr
- llywodraeth leol
- grŵp cymunedol
- sefydliad anllywodraethol
- elusen neu fenter gymdeithasol
- gweithredwr aildefnyddio neu atgyweirio
- ymgynghoriaeth
- academaidd neu ymchwil
- unigolyn (hynny yw, ddim yn cynrychioli sefydliad)
- arall
- Os ateboch chi 'Arall', rhowch fanylion

4. Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

Atebwch Ydw neu Nac ydw

5. Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 4, esboniwch yn gryno pam eich bod am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol.

Cynigion polisi

1. Casglu mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi

Cefndir

Mae Awdurdodau Lleol yn dewis cofrestru eu canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (HWRCs) a'u gorsafoedd trosglwyddo gwastraff fel cyfleusterau casglu dynodedig (DCF) o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff. Os ydynt wedi'u cofrestru fel cyfleusterau casglu dynodedig, mae'n ofynnol iddynt gynnig darpariaeth ar y safle ar gyfer casglu'r canlynol ar wahân:

- offer domestig mawr
- setiau teledu a monitorau cyfrifiaduron
- oergelloedd a rhewgelloedd
- lampau
- paneli solar
- holl gyfarpar arall y cartref

Mae'n rhaid i gynhyrchwyr, drwy fod yn aelodau o Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr (PCS), ariannu'r gost o gasglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei adael mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref mewn modd priodol. Mae hyn yn debygol o fod yn gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a roddir gan ddeiliaid tai ond bydd hefyd yn cynnwys cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir drwy gasgliadau gwastraff swmpus, banciau casglu (fel y diffinnir yn yr eirfa) neu drwy wasanaethau casglu ar garreg y

drws. Byddai'r gost o gasglu a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ac sydd wedi cael ei adfer gan Awdurdodau Lleol a'i gludo i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref hefyd yn cael ei thalu gan Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr. Mae cynhyrchwyr sy'n rhoi llai na 5 tonnelli o gyfarpar trydanol ac electronig ar farchnad y DU bob blwyddyn wedi'u heithrio o'r rhwymedigaethau ariannol hyn ac mae angen iddynt adrodd yn flynyddol ar ddata'r farchnad i'w rheoleiddiwr amgylcheddol.

Mae 86 o Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaeth casglu o garreg y drws ar gyfer eitemau bach o wastraff trydanol. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o ddeiliaid tai, eu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol yw'r unig gyfleuster awdurdod lleol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Mae gwasanaethau casglu gwastraff swmpus y gellir codi tâl amdanynt ar gael i breswylwyr ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr fel peiriannau golchi neu oergelloedd. Er bod Cymru'n cydnabod y rôl y gall casgliadau ar garreg y drws ei chwarae, bydd yn cyflwyno cynigion i sefydlu canolfannau ailddefnyddio ac ailgylchu ar gyfer casglu eitemau trydanol a bydd yn ystyried sut gall hyn gael ei gefnogi gan gasgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, gan gynnwys o'r cartref.

Yr achos dros newid

Mae angen seilwaith casglu gwastraff cadarn ar y DU, sy'n ei gwneud yn haws i gartrefi ailgylchu neu waredu eu cyfarpar diangen. Ar hyn o bryd, gall deiliaid tai ddychwelyd cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn rhad ac am ddim i'w canolfan ailgylchu gwastraff y cartref leol. Casglwyd cyfanswm o 309,360 tonnelli o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff awdurdodau lleol yn 2019.

Fodd bynnag, rhaid i ni ei gwneud yn fwy cyfleus i ddeiliaid tai gael gwared ar gyfarpar trydanol nad oes ei eisiau arnynt – yn enwedig eitemau bach sy'n cael eu taflu i'r bin. Mae [ymchwil a wnaed yn 2020](#) yn dangos bod 155,000 tonnelli o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei waredu mewn gwastraff gweddilliol bob blwyddyn. Yn 2019 i 2020, o blith 976,000 o achosion o dipio anghyfreithlon, roedd 5% yn cynnwys "nwyddau gwyn" ac 1.5% yn cynnwys cyfarpar arall.

Mae llawer iawn o gyfarpar dieisiau yn cael ei gelcio gan ddeiliaid tai, sy'n golygu bod y cynnyrch hwnnw'n cynrychioli adnoddau'n cael eu colli. Mae [arolwg cenedlaethol cynrychioliadol](#) o oedolion y DU gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol ac Ipsos Mori hefyd yn taflu goleuni ar faint o offer segur a heb ei ddefnyddio sy'n cael ei storio gan ddeiliaid tai, gyda 51% o'r ymatebwyr yn dweud bod ganddynt o leiaf un eitem o gyfarpar diangen yn eu cartref a 45% yn dweud bod ganddynt rhwng dwy a phum eitem.

Credwn ei bod yn hanfodol ehangu'r seilwaith casglu gwastraff cartrefi presennol ledled y Deyrnas Unedig i gynnwys casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach a swmpus o'r cartref am ddim. Bydd hyn yn dod â lefel newydd o hwylustod i ddeiliaid tai a fydd, yn ein barn ni, yn sbarduno newid mewn ymddygiad a fydd yn arwain at lefelau uwch o ailgylchu. Byddwn yn rhoi mesurau eraill ar waith ar gyfer ailddefnyddio a byddwn yn sicrhau cyfathrebu effeithiol i annog defnyddwyr i ailddefnyddio cyfarpar sy'n dal yn gweithio.

Rydym am archwilio opsiynau ar gyfer system casglu o'r cartref ledled y DU ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, sydd wedi'i hariannu a'i harwain gan gynhyrchwyr. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o ddarparu'r gwasanaeth hwn yw drwy Weinyddwr Cynllun sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr. Byddai angen i Weinyddwr y Cynllun hwn fodloni meini prawf

penodol a bennir gan y llywodraeth. Y rhagdybiaeth yw y byddai Gweinyddwr y Cynllun yn cyflawni hyn drwy gcontractio gydag Awdurdodau Lleol a'u darparwyr gwasanaeth, ond y corff sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr fyddai'n penderfynu ar hyn yn y pen draw. Yn yr ymgynghoriad hwn, ni fwriedir gorfodi awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi na rheoleiddio'r union ffordd y bydd gofyn i ddeiliaid tai gyflwyno eu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i'w system gasglu sy'n cael ei hariannu gan y cynhyrchwyr. Nid oes angen cynhwysydd ar wahân, o reidrwydd, ar gyfer gwasanaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi, fel sydd i'w weld gyda rhai cynghorau eisoes yn cynnig gwasanaeth sy'n golygu, yn syml, dim ond rhoi cyfarpar trydanol bach mewn hen fag siopa.

Dylai dull o'r fath ganolbwyntio ar gymhelliant deul, ar ran cynhyrchwyr ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y ddwy ochr yn cyflawni. Dylai'r asesiad o rwymedigaethau cynhyrchwyr adlewyrchu arferion da a meincnodau rhesymol ar gyfer costau a pherfformiad rhannau tebyg o'r wlad. Yn amodol ar osod rhwymedigaeth debyg ar gynhyrchwyr ar gyfer casglu batris cludadwy o gartrefi, rydym o'r farn y byddai'r dull hwn o gael Gweinyddwr Cynllun hefyd yn briodol yn yr achos hwnnw. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd hynny'n cael ei ystyried o dan yr ymgynghoriad ar wahân ar fatris sydd i fod i ddilyn yn 2024.

Bydd y costau a'r dull gweithredu'n amrywio mewn gwahanol ardaloedd felly mae'n rhaid i'r trefniadau a'r broses o ddosrannu costau i gynhyrchwyr adlewyrchu daearyddiaeth ddynol a ffisegol ardaloedd lleol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i lefelau amddifadedd, natur wledig, a math o annedd. Un egwyddor allweddol yw sicrhau bod cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael ei gasglu o bob cartref ledled y DU, nid dim ond yn yr ardaloedd mwyaf proffidiol neu leiaf costus.

Fel y nodir uchod, mae cynhyrchwyr sy'n gosod llai na 5 tonnelli o offer ar farchnad y DU bob blwyddyn wedi'u heithrio o'r rhwymedigaethau ariannol hyn gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr (PCS). Byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw'r trothwy 5 tonnelli hwn yn dal yn briodol.

Cyfathrebu

Bydd cyfathrebiadau effeithiol, a ariennir gan gynhyrchwyr, ynghylch darparu gwasanaethau casglu gwastraff cartrefi ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach, a gwasanaethau gwastraff swmpus ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr yn hanfodol os ydym am godi lefelau casglu. Yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, dylai cyfathrebiadau bwysleisio budd opsiynau ailgylchu ac aildddefnyddio lle bo hynny'n bosibl. Dylai cyfathrebiadau hefyd gynnwys cyngor ar beth i'w wneud â dyfeisiau sydd â data wedi'u plannu ynddynt. Rydym yn croesawu rhagor o dystiolaeth ar y gost debygol o gyfleu'r neges honno'n effeithiol ledled y DU.

Ein cynnigion ar gyfer casglu mwy o offer trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi

- **Cynnig 1.1:** Dylai cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig fod yn gyfrifol am ariannu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach ar garreg y drws

Mae'r cynnig yn symud cyfrifoldeb cynhyrchwyr o ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref yr awdurdod lleol i'r cartref. Mae awdurdodau lleol eisoes yn darparu gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu i gartrefi. Byddai'r cynnig yn gosod rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr i

ariannu casgliadau gwastraff cartrefi ar wahân. Mae'r costau a'r manteision a nodir yn yr asesiad effaith cysylltiedig yn tybio y byddai cynhyrchwyr, drwy Weinyddwr Cynllun dan arweiniad cynhyrchwyr, yn ceisio darparu'r gwasanaeth drwy integreiddio â'r gwasanaethau casglu ar garreg y drws sy'n cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol. Ond nid ydym yn cynnig gorfodi cynhyrchwyr i weithio gyda phartneriaid cyflenwi penodol na mynnu bod awdurdodau lleol yn casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar wahân. Felly, rydym yn croesawu eich barn ynghylch a allai dulliau amgen eraill sy'n cael eu darparu a'u hariannu ar gyfer cynhyrchwyr drwy Weinyddwr Cynllun ddarparu gwell gwerth am arian gan ddarparu'r un hwylustod i ddeiliaid cartrefi â'r hyn y gallai Awdurdodau Lleol ei gynnig.

Rydym yn rhagweld y byddai costau sefydlu a gweithredu'r gwasanaeth yn cael eu hariannu gan gynhyrchwyr a'u darparu drwy Weinyddwr Cynllun. Rydym yn rhagweld y dylai gwasanaeth o'r fath fod ar ffurf cylch casglu rheolaidd ond rydym yn croesawu barn ar amllder cylch o'r fath er mwyn cydbwysu'r effaith yn erbyn effeithlonrwydd. Rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ellid darparu gwasanaeth drwy ddull "ar alw", cylch casglu rheolaidd neu, o bosibl, gymysgedd o ddulliau gweithredu mewn gwahanol ardaloedd.

Byddai'n dda cael eich barn ar sut dylid diffinio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach, er enghraifft, yn ôl pwysau neu ddimensiwn. Hoffem wybod hefyd a oes unrhyw gynhyrchion a allai greu unrhyw risgiau o gael eu cynnwys mewn trefniant casglu o'r cartref.

Mae [adroddiad a gomisiynwyd gan Material Focus](#) yn gosod yr opsiynau a'r costau ar gyfer gwasanaeth ar garreg y drws a ddarperir gan Awdurdodau Lleol sy'n rhoi sail i'n Hasesiad Effaith.

Credwn y dylai'r rhwymedigaeth ariannol fod yn nwylo cynhyrchwyr cyfarpar y cartref ac unrhyw ddsbarthwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaethau 'cymryd cyfarpar yn ôl' eu hunain ar gyfer offer dieisiau (gweler **pennod 2 ar rwymedigaethau dosbarthwyr**). Dylai'r rhwymedigaethau hynny gydnabod gwahaniaethau daearyddol sy'n arbennig o amlwg wrth wasanaethu ardaloedd gwledig, gan gynnwys Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban. Rhaid ystyried ffactorau daearyddol i sicrhau bod pob math o Awdurdodau Lleol gwledig yn cael eu digolledu'n deg am gostau y tu hwnt i'w rheolaeth.

Rydym yn rhagweld y byddai angen Gweinyddwr Cynllun a arweinir gan gynhyrchwyr i gyflawni'r swyddogaethau sy'n angenrheidiol i gyflwyno gwasanaeth casglu o gartrefi ledled y DU ar ran cynhyrchwyr. Byddai corff o'r fath, er enghraifft, yn gyfrifol am negodi contractau gyda phartneriaid cyflenwi fel Awdurdodau Lleol a chwmnïau rheoli gwastraff, ac am gasglu'r cyllid angenrheidiol gan gynhyrchwyr neu eu Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar faint o amser y byddai ei angen ar gorff o'r fath i sefydlu gwasanaeth casglu o gartrefi ledled y DU. Gweler **Pennod 5 ar ein cynigion i sefydlu Gweinyddwr Cynllun newydd**.

- **Cynnig 1.2:** Bod cynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu gwasanaethau cymryd yn ôl) cyfarpar yn talu am gasgliadau gwastraff swmpus i ddeiliaid tai ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr.

Rydym yn cynnig bod gan gynhyrchwyr ddyletswydd i ariannu cost gwasanaethau casglu gwastraff swmpus ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a ddarperir fel arfer gan Awdurdodau Lleol, ar gais, yn aml fel gwasanaeth y codir tâl amdano. Y rhwymedigaeth fyddai darparu gwasanaeth am ddim i aelwydydd ar gais, ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig

gwastraff sy'n rhy fawr i'w gasglu drwy wasanaeth casglu yn y dyfodol ar gyfer eitemau llai a ddisgrifir o dan Gynnig 1.

Yn yr un modd â'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth casglu o gartrefi ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach, rydym yn rhagweld mai partneriaethau ag Awdurdodau Lleol (neu ddarparwyr gwasanaethau lleol eraill) mewn llawer o achosion yw'r ffordd fwyaf cost-ffeithiol ac effeithlon i gynhyrchwyr gyflawni'r rhwymedigaeth hon, ac adlewyrchir dull gweithredu o'r fath yn yr asesiad effaith cysylltiedig. Mae dull o'r fath yn debygol o arwain at arbedion effeithlonrwydd yn enwedig lle mae gan ddeiliaid tai nifer o eitemau swmpus eraill nad ydynt yn gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i'w gwaredu (er enghraifft, dodrefn). Fodd bynnag, ni fwriedir gorfodi cynhyrchwyr i weithio gyda phartneriaid cyflenwi penodol.

Mae unrhyw Weinyddwr Cynllun sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr yn debygol o fod â rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni'r rhwymedigaeth a nodir yn y cynnig hwn a byddai'n debygol o chwarae rôl debyg i'r hyn a ragwelir ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaeth ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach o gartrefi, fel yr amlinellir yng nghynnig 1.

Cwestiynau

6. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaethau cymryd yn ôl eu hunain ar gyfer nwyddau trydanol ac electronig) dalu am gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (er enghraifft, tostwyr, teganau bach ac offer) o gartrefi? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
 - a. Cytuno
 - b. Anghytuno
 - c. Ddim yn siŵr
7. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 6.
8. Gan gydnabod yr angen i gydbwysu amllder gwasanaeth ag effeithlonrwydd, pa mor aml y dylid darparu cylch casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
 - a. Bob wythnos
 - b. Bob pythefnos
 - c. Bob mis
 - d. Ar alw
9. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 8.
10. A fyddai'n fuddiol darparu ar gyfer gwahanol drefniadau i'w cymhwysu mewn gwahanol ardaloedd yn ôl amgylchiadau, er enghraifft, ar alw mewn rhai ardaloedd a chylch casglu rheolaidd mewn ardaloedd eraill? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb.
11. Yn ôl beth ddylai eitemau sy'n gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn gael eu diffinio:
 - a. Pwysau
 - b. Dimensiynau

12. Nodwch unrhyw gynhyrchion a ddylai, oherwydd eu priodweddau, gael eu heithrio o wasanaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach o gartrefi.

Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb

13. Ar gyfer unrhyw gynhyrchion a restrir mewn ymateb i gwestiwn 12, pa fesurau y dylid eu rhoi ar waith i godi lefelau eu casglu ar wahân er mwyn lleihau faint o wastraff gweddilliol sy'n cael ei waredu?

14. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaethau 'cymryd cyfarpar yn ôl' eu hunain) ariannu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

15. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 14.

16. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai Gweinyddwr Cynllun sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr, ac yn cael ei gymeradwyo gan y llywodraeth, sydd yn y sefyllfa orau i bennu'r mecanwaith mwyaf ymarferol ac effeithlon i reoli rhwymedigaethau cynhyrchwyr i ariannu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig bach a mawr o gartrefi? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

17. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 16.

18. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gwaith mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gyflawni'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff cartref rheolaidd ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig bach a chasgliadau gwastraff swmpus ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr yn debygol o gael ei gyflawni drwy bartneriaethau rhwng Gweinyddwr Cynllun ac Awdurdodau Lleol a'u partneriaid rheoli gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

19. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 18.

20. Os ydych chi wedi rhoi 'cytuno' fel ateb i gwestiwn 16, pa fesurau diogelu, os o gwbl, allai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod costau a wynebir gan gynhyrchwyr wrth fodloni rhwymedigaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi yn adlewyrchu gwir gostau'r ddarpariaeth drwy eu partneriaid gwasanaeth?

21. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dadansoddiad o'r cynnig hwn a nodir yn yr Aseiad o Effaith cysylltiedig? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno

- b. Anghytuno.
- c. Ddim yn siŵr

22. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 21.
23. A oes ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaeth casglu cost-effeithiol ac effeithlon o gartrefi yn unol â'r hyn a ddisgrifir yng nghwestiwn 18, gyda phartneriaid cyflenwi eraill yn hytrach nag Awdurdodau Lleol, ac os felly, sut beth fyddai hynny?
24. Rhowch unrhyw sylwadau eraill a thystiolaeth ategol ar y cynnig i gynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu gwasanaethau cymryd yn ôl) ariannu system o gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach ar garreg y drws a chasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr ar alw ar gyfer aelwydydd?
25. Mae cynhyrchwyr sy'n gosod llai na phum tunnell o gyfarpar ar farchnad y DU bob blwyddyn wedi'u heithrio o rwymedigaethau ariannol o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff. A yw'r trothwy pum tunnell hwnnw'n dal yn briodol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- a. Ydy
 - b. Nac ydy
 - c. Ddim yn siŵr
26. Os ateboch chi 'nac ydy' i gwestiwn 25, pa drothwy tunelledd sy'n briodol? Rhowch dystiolaeth i gefnogi trothwy amgen
27. A oes dulliau amgen nad ydynt yn rheoleiddiol y gellid eu sefydlu i gynyddu casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar wahân o gartrefi i'w aildefnyddio a'i ailgylchu? Os felly, disgrifiwch sut bethau fyddai'r dulliau hyn.

2. Cynyddu seilwaith casglu dosbarthwyr

Cefndir

Ystyr dosbarthwr yw unrhyw berson yn y gadwyn gyflenwi sy'n darparu eitem o gyfarpar ar y farchnad. Mae dau fath o ddsbarthwr y byddwn yn eu trafod - manwerthwyr (y rheini sy'n gwerthu cyfarpar i'r cartref ac sydd ag o leiaf un siop brics a mortar) a gwerthwyr ar y rhyngwyd sy'n darparu cyfarpar i'r cartref drwy sianel ar-lein. Mae gan ddsbarthwyr eisoes rwymedigaethau mewn perthynas â chymryd cyfarpar diangen yn ôl oddi wrth ddeiliaid tai. Sef:

- darparu gwasanaeth cymryd cyfarpar yn ôl, yn rhad ac am ddim, am bob eitem newydd â swyddogaeth debyg y bydd deiliad y tŷ yn ei phrynu;
- darparu gwasanaeth cymryd cyfarpar bach iawn yn ôl, yn rhad ac am ddim, os yw arwynebedd y siop lle maent yn gwerthu dros 400m²
- rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid am rôl manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngwyd yng nghyswllt cymryd eitemau trydanol yn ôl a'r opsiynau sydd ar gael i'r cwsmer ar gyfer ailgylchu'r cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff nad oes eu hangen arnynt.
- ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr gadw cofnod o faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y maent yn ei gasglu o gartrefi preifat.

O dan y system bresennol, gall llawer o fanwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngwyd gyflawni eu rhwymedigaethau drwy ymuno â Chynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr (DTS) fel dewis arall yn lle darparu cyfleusterau cymryd yn ôl eu hunain. Mae'r cynllun hwn wedi codi dros £13 miliwn gan fanwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngwyd ers 2007 ac mae wedi darparu £9 miliwn o gyllid i Awdurdodau Lleol i sefydlu cyfleusterau casglu ar wahân ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ac £1 miliwn o gyllid wedyn i gynnal a chadw safleoedd. Mae'r £3 miliwn sy'n weddill yn cefnogi prosiectau lleol sy'n ceisio annog mwy o aildddefnyddio ac ailgylchu.

Yr achos dros newid

Mae Pennod 1 yn nodi ein cynigion i sefydlu system a ariennir gan gynhyrchwyr i gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach a swmpus o gartrefi yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn credu bod achos cryf o hyd dros gryfhau'r rhwymedigaethau cymryd yn ôl dosbarthwyr a roddir ar fanwerthwyr a gwerthwyr ar-lein ar hyn o bryd. Mae hwylustod yn un o'r prif ffactorau sy'n atal rhagor o gasgliadau. Efallai nad yw'r hyn sy'n gyfleus i un person mor gyfleus i un arall. Yr hyn y mae ein cynigion yn ceisio'i sicrhau yw dewis. Bydd preswylwyr yn y dyfodol yn mynd â chynwysyddion diodydd i'r archfarchnad i adennill ernes o dan y cynllun dychwelyd ernes arfaethedig. I rai pobl, gall dychwelyd tostiwr sydd wedi torri ar yr un adeg fod yn gyfleus. Bydd eraill yn dewis defnyddio'r gwasanaeth casglu o'r cartref. Os oes gan ddeiliad tŷ eitem swmpus fel oergell yn cael ei danfon, y ffordd fwyaf effeithlon a chyfleus o fynd â'r hen oergell i ffordd fyddai i'r gwerthwr fynd â hi er mwyn ei haildddefnyddio neu ei hailgylchu.

Bydd yn cymryd amser i weithredu'r broses o ddylunio a datblygu system casgliadau o gartrefi, sy'n cael eu hariannu gan gynhyrchwyr, ledled y DU. Yn y cyfamser, rydym am gryfhau rhwymedigaethau manwerthwyr presennol o dan y rheoliadau presennol i gael mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff gan ddeiliaid tai. Mae'r bennod hon yn amlinellu nifer o gynigion sydd wedi'u cynllunio i wneud hyn, y gellir eu cyflawni ledled y DU yn gyflymach. Pan fydd y system casglu o gartrefi a ddisgrifir ym mhennod 1 ar waith, byddwn yn adolygu'r berthynas rhwng hynny a rhwymedigaethau'r manwerthwr fel rhan o adolygiad ôl-weithredu statudol.

Mae gan y DU un o'r cyfraddau casglu isaf gan fanwerthwyr a gwerthwyr ar y rhynggrwyd yn Ewrop. Mae ymchwil⁶ yn dangos mai'r DU yw'r unig wlad yn Ewrop ar hyn o bryd sy'n cynnig dewis arall i fanwerthwyr a gwerthwyr ar y rhynggrwyd yn lle darparu cyfleusterau cymryd yn ôl eu hunain. Mae tystiolaeth bod gorfodi manwerthwyr i gynnig gwasanaeth cymryd yn ôl ffisegol yn rhad ac am ddim yn gallu arwain at fanteision o ran cynyddu nifer y casgliadau, o ystyried pa mor agos ydynt at gartrefi, yn enwedig pan gefnogir hynny gan brosesau cyfathrebu effeithiol â defnyddwyr.

[Mae ymchwil gan Ipsos Mori](#) wedi dangos bod hwylustod yn ffactor mawr o ran sicrhau bod deiliaid tai yn gwaredu eu heitemau trydanol diangen yn briodol a dywedodd 42% o ddefnyddwyr a gafodd eu holi y byddent yn defnyddio manau casglu mewn archfarchnadoedd, a byddai 48% yn defnyddio manau casglu mewn gorsafoddd petrol ac mewn siopau eraill pe baent ar gael. Mae gan nifer o wledydd, gan gynnwys yr Almaen, Gwlad Belg ac Iwerddon, eisoes ofynion mwy cynhwysfawr o ran trefniadau i fanwerthwyr gymryd eitemau yn ôl na'r hyn y mae deddfwriaeth Ewrop yn ei fynnu, gyda nwyddau yn cael eu cymryd yn ôl am ddim pan fydd cynnyrch newydd yn cael ei ddanfôn a'r posibilrwydd i fynd ag eitemau llai yn ôl i'r siop heb orfod prynu eitem debyg. Mae [ymchwil](#) yn dangos bod trefniadau cymryd yn ôl manwerthwyr wedi bod fwyaf effeithiol mewn gwledydd lle mae pwyslais cryf ar ymgyrchoedd cyfathrebu, er enghraifft yn Ffrainc a Gweriniaeth Iwerddon.

Ers mis Ionawr 2021, mae'r llywodraeth wedi mynnu bod manwerthwyr mawr, gyda throsiant blynyddol o £100k neu fwy wrth werthu cyfarpar trydanol, yn cynnig gwasanaeth cymryd yn ôl yn y siop am bob eitem newydd, debyg y bydd yn ei gwerthu. Nid yw'r manwerthwyr hynny bellach yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau drwy fod yn aelodau o Gynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr. Gall manwerthwyr ar-lein yn unig a manwerthwyr bach sydd â throsiant blynyddol o lai na £100k y flwyddyn barhau i gyflawni eu rhwymedigaethau drwy fod yn aelodau o'r Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr presennol. Rydym am ystyried rhagor o opsiynau ar gyfer cynyddu casgliadau drwy fanwerthwyr ac ar-lein

Bydd systemau cymryd nwyddau manwerthu yn ôl yn aml yn sicrhau bod eitemau diangen yn cael eu trin mewn ffordd debyg i gyfarpar newydd ac nad ydynt yn dod i gysylltiad â'r elfennau sy'n nodweddiadol mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn y potensial i aildefnyddio cyfarpar nad oes ei angen ac felly mae'n cefnogi ein hymgyrch tuag at economi gylchol. Mae manwerthwyr mawr eisoes yn cydnabod gwerth deunydd y gellir ei aildefnyddio, ac yn aml iawn mae ganddynt gysylltiadau strategol â sefydliadau partner ar gyfer cyflenwi cyfarpar y gellid ei aildefnyddio gan felly flaenoriaethu aildefnyddio dros ailgylchu.

Mae gwerthu ceginau yn sianel allweddol ar gyfer gwerthu offer domestig mawr sy'n arwain at nifer fawr o offer gwastraff. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad yw llawer o'r offer gwastraff hyn yn cael eu dychwelyd i'r system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a ariennir gan y cynhyrchwyr. Ar hyn o bryd, efallai na fydd gan y cyflenwr na'r gosodwr rwymedigaeth i fynd â'r hen offer yn ôl, gan arwain at beidio â chofnodi'r eitem honno gan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff presennol a risg uchel y caiff ei thrin yn amhriodol. Mae ein cynigion yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon.

Ein cynigion ar gyfer cynyddu seilwaith casglu dosbarthwyr

- **Cynnig 2.1:** bod manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhynggrwyd yn darparu "gwasanaeth casglu wrth ddanfôn" yn rhad ac am ddim, sy'n ei gwneud yn ofynnol i offer domestig

mawr fel peiriannau golchi dillad, peiriannau golchi llestri, oergelloedd, rhewgelloedd a setiau teledu gael eu dychwelyd am ddim.

Fel arfer, bydd cyfarpar mawr yn cael ei ddanfôn i gartref y cwsmer ni waeth a brynwyd yr eitem yn y siop neu ar-lein. Bydd manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngrwyd yn cynnig mynd â hen offer oddi yno am dâl ychwanegol. Mae'r tâl hwnnw'n ddatgymhelliad i rai defnyddwyr o ran sicrhau bod eitem nad oes ei hangen arnynt yn cael ei hailgylchu'n briodol. Felly, rydym yn cynnig mynnu na all y manwerthwr na'r gwerthwr ar y rhyngrwyd godi tâl am ddarparu'r gwasanaeth hwn. Byddai'r rhwymedigaeth hon yn berthnasol i unrhyw fanwerthwr neu werthwr ar y rhyngrwyd sy'n darparu cyfarpar yn uniongyrchol i gartref y cwsmer.

Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y gofynion gan gydnabod y gallai fod angen datgysylltu neu wagio eitemau (er enghraifft, rhewgell) ac felly efallai na fyddant yn barod i'w casglu pan fydd yr eitem newydd yn cael ei danfon. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd pan na fydd gan y cerbyd cludo ddigon o le dros ben i fynd â'r hen offer i fwrdd pan fydd yn danfon yr un newydd.

Rydym yn cynnig sicrhau bod y rhwymedigaeth hon hefyd yn berthnasol i fanwerthwyr ceginau, gwerthwyr ar-lein a darparwyr gwarantau. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymgynghori erbyn 2026 ynghylch i ba raddau y gellid ymestyn dull gweithredu o'r fath i'r sectorau dodrefn, matresi a llenni a deunyddiau.

Mae ein hymchwil yn dangos bod gwasanaeth o leiaf un prif fanwerthwr sy'n casglu pan fydd yn danfon hefyd yn cynnwys cyfle i ddeiliaid tai drosglwyddo cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach yn ogystal â'u hen offer. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid gorfodi'r gofyniad hwnnw.

- **Cynnig 2.2:** bod gwerthwyr ar y rhyngrwyd sydd â throsiant o dros £100k wrth werthu cyfarpar trydanol bob blwyddyn yn cynnig cymryd cyfarpar diangen yn ôl am bob eitem newydd, debyg a gyflenwir.

Y bwriad yma yw sicrhau cydraddoldeb â'r rhwymedigaeth i gymryd eitemau yn ôl am bob eitem newydd, debyg a gyflenwir, sy'n berthnasol i fanwerthwyr ar hyn o bryd. Dylai'r gwasanaeth fod o leiaf yr un mor gyfleus â'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd gan fusnesau sy'n gwerthu mewn siopau brics a mortar. Gallai hyn, er enghraifft, gael ei gynnig drwy wasanaeth casglu wrth ddanfôn, mynediad at fannau gollwng lleol, system o ffurflenni parod neu addaladwy ar gyfer dychwelyd eitemau, sy'n debyg i'r hyn a ddarperir ar gyfer dychwelyd pryniadau diangen. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar sut dylai hyn fod yn berthnasol i'r cwmnïau hynny sy'n gwerthu drwy farchnadoedd ar-lein a/neu dai cyflawni.

Byddai'r cynnig hwn yn ychwanegol at y rhwymedigaeth a amlinellir yng Nghynnig 1, lle mae'n ofynnol iddynt gynnig casglu am ddim wrth ddanfôn eitemau mawr. Rydym yn croesawu eich barn ynghylch i ba raddau y dylai'r rhwymedigaeth hon fod yn berthnasol i dai cyflawni a/neu farchnadoedd ar-lein lle maent yn cael eu defnyddio gan y dosbarthwr.

Rydym yn croesawu eich barn ar sut dylid diffinio dosbarthwyr yn y ddarpariaeth hon gan gydnabod ein bod am i rhwymedigaethau gael eu defnyddio'n deg ar draws gwahanol fathau o ddosbarthwyr. Er enghraifft, ni ddylai dosbarthwyr sy'n gwerthu'r rhan fwyaf o'u nwyddau ar-lein, ond sydd hefyd ag un neu ragor o siopau brics a mortar, allu cyflawni eu rhwymedigaethau casglu yn y siopau hynny ar eu pen eu hunain. Hoffem hefyd gael barn ynghylch a ddylai rhwymedigaethau fod yn nwylo'r tŷ cyflawni perthnasol neu'r farchnad ar-lein lle mae'r cynnyrch wedi'i gyflenwi o dramor, heb ddosbarthwr yn y DU.

- **Cynnig 2.3:** bod manwerthwyr sydd â throsiant o dros £100k wrth werthu cyfarpar trydanol bob blwyddyn yn cymryd cyfarpar trydanol diangen yn ôl yn y siop heb fod angen prynu eitem newydd (cymryd yn ôl 0:1).

Dim ond i'r manwerthwyr hynny sydd eisoes wedi gorfod cynnig gwasanaeth cymryd eitem yn ôl am un newydd, debyg a gyflenwir, o fis Ionawr 2021 ymlaen, y byddai'r rhwymedigaeth hon yn berthnasol. Mae'r trothwy hwn yn adlewyrchu'r hyn sy'n berthnasol ar hyn o bryd i fusnesau sy'n gorfod cynnig gwasanaeth cymryd yn ôl yn y siop ac sy'n methu cyflawni eu rhwymedigaethau drwy fod yn aelodau o'r Cynllun Cymryd yn ôl i Ddosbarthwyr. Byddem yn croesawu tystiolaeth ynghylch a yw hwn yn fan priodol ar gyfer newid.

Er na fyddai'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth cymryd yn ôl yn gysylltiedig â phrynu eitem newydd, byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylai'r manwerthwr fod yn gorfod cymryd yr eitem yn ôl dim ond os yw'n gwerthu'r un math o eitem yn y siop. Gallai dull o'r fath wneud y rhwymedigaeth yn gliriach i fanwerthwyr a defnyddwyr a byddai'n haws cyfleu'r neges. Byddai'n osgoi sefyllfa, er enghraifft, lle byddai angen i siop drydanol arbenigol sy'n gwerthu cynnyrch goleuadau yn unig gymryd tostiwr. Rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylai'r rhwymedigaeth fod yn ddarostyngedig i "gyfyngiadau rhesymol" ar faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y byddai unrhyw ddeiliad tŷ yn cael ei ddychwelyd i'r manwerthwr. Gallai hyn olygu mai dim ond nifer penodol o eitemau y caiff y cwsmer ei ddychwelyd ar unrhyw un adeg. Byddai cyflwyno'r rhwymedigaeth newydd hon yn arwain at gynydd sylweddol yn y manau casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd ar gael, gan gynyddu'r dewis a'r hwylustod i ddefnyddwyr. Byddai'n dod â mwy o gysondeb â'r rhwymedigaethau cymryd yn ôl presennol ar gyfer batris o dan Reoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009.

Gallai gofyniad o'r fath fod yn heriol i werthwyr ar y rhyngwrwd, tai cyflawni neu farchnadoedd ar-lein ei weithredu'n effeithiol. Byddem yn croesawu eich barn ar rwymedigaethau eraill ar gyfer gwerthwyr ar y rhyngwrwd fel talu i mewn i gynllun, tebyg i'r cynllun presennol, sef Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr.

- **Cynnig 2.4:** bod manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngwrwd yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am eu dewisiadau ar gyfer gwaredu cyfarpar nad oes ei angen arnynt pan fyddant yn gwerthu cyfarpar newydd

Bydd cyfathrebu'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni'r mesurau a amlinellir yng Nghynigion 1-3 yn llwyddiannus. Mae'r Llywodraeth yn credu bod yn rhaid i fanwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngwrwd sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer gwaredu eu cyfarpar diangen, gan gynnwys rhwymedigaethau cymryd yn ôl manwerthwyr pan fyddant yn prynu cynnyrch newydd. Yr unig rhwymedigaeth ar hyn o bryd yw "sicrhau bod gwybodaeth ar gael" pan ofynnir amdani. Yn aml, dim ond ar gais y mae'r wybodaeth honno ar gael neu mae ar gael yng nghanol llawer o wybodaeth arall ar wefan cwmni. Gellid darparu'r wybodaeth, er enghraifft, yn ystod sgwrs adeg gwerthu, ar y dderbynneb gwerthu neu fel rhan o'r cyfathrebu digidol adeg prynu.

- **Cynnig 2.5:** symud pwynt cyfrifoldeb y cynhyrchydd (drwy Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr) i siop y manwerthwr, y ganolfan ddsbarthu neu'r man storio mewn swmp.

Ar hyn o bryd, rhaid i'r Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr ganiatáu i ddsbarthwyr ddanfod cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i'w rhwydwaith. Fodd bynnag, gallai cludo cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o fan casglu enwebedig Cynllun Cydymffurfio Cyflenwyr fod

yn ddatgymhelliad sylweddol i'r dosbarthwr geisio mynd ati'n rhagweithiol i annog casgliadau gan eu cwsmeriaid.

Byddai'r cynnig hwn yn dileu'r gost i fanwerthwyr o symud y cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i gyfleuster aildefnyddio neu ailgylchu ac efallai y byddai'n cymell manwerthwyr i arloesi i gasglu mwy. Byddai dull o'r fath yn cyd-fynd â'r pwynt lle mae cyfrifoldeb y cynhyrchydd dros gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei adael mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn dechrau. Byddai'r dosbarthwr yn gwneud trefniant gyda Chynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr i ariannu'r gwaith o gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o'i eiddo yn yr un modd â'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd gan Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Awdurdodau Lleol. Byddai'n sicrhau bod y rhyngwyneb rhwng rhwymedigaethau dosbarthwyr/cynhyrchwyr yn cyd-fynd yn well yn Rheoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009.

Cwestiynau

28. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngrwyd ddarparu "gwasanaeth casglu wrth ddanfôn" yn rhad ac am ddim, sy'n ei gwneud yn ofynnol i offer domestig mawr fel peiriannau golchi dillad, peiriannau golchi llestri, oergelloedd, rhewgelloedd a setiau teledu gael eu dychwelyd am ddim? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
29. Os ydych wedi ateb 'cytuno' i gwestiwn 28, a ddylid pennu amserlen resymol ar gyfer casglu'r eitem nad oes ei hangen er mwyn caniatáu ar gyfer amgylchiadau lle nad yw ar gael i'w chasglu ar adeg danfôn? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Dylid
 - Na ddylid
 - Ddim yn siŵr
30. Os ydych wedi ateb 'dylid' i gwestiwn 29, beth ddylai'r amserlenni hyn fod?
- 2 ddiwrnod
 - 5 diwrnod
 - 10 diwrnod
 - Na, ni ddylid pennu amserlen resymol.
31. Os ydych wedi ateb 'cytuno' i gwestiwn 28, a ddylid ymestyn y gwasanaeth hwn i gasglu eitemau llai pan fydd eitem fawr yn cael ei chasglu? Os felly, a ddylai hyn fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhesymol o ran faint o eitemau y gellir eu dychwelyd ar unwaith? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Dylai
 - Na ddylai
 - Ddim yn siŵr

32. A ddylai manwerthwyr sy'n gwerthu offer newydd i'r cartref fel rhan o gegin newydd hefyd orfod mynd â'r hen offer o'r cartref yn rhad ac am ddim? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Dylai
 - Na ddylai
 - Ddim yn siŵr
33. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 32.
34. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem ymestyn y gofynion cymryd yn ôl presennol ar gyfer manwerthwyr mawr o sail 1:1 i 0:1, hynny yw, fel nad oes yn rhaid prynu eitem er mwyn i'r rhwymedigaeth cymryd yn ôl fod yn berthnasol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
35. Os ydych wedi ateb 'cytuno' i gwestiwn 34, a ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai rhwymedigaeth o'r fath fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhesymol o ran faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei ddychwelyd gan bob deiliad tŷ? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
36. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r diffiniad o "fanwerthwr mawr" fod yn unrhyw fusnes sydd â throsiant blynyddol o dros £100k o gyfarpar trydanol ac electronig? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
37. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 36.
38. Os ateboch chi 'anghytuno' i gwestiwn 36, beth ddylai trothwy amgen fod? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
39. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cyfyngu'r rhwymedigaeth i fanwerthwyr yn cymryd eitemau sy'n debyg i'r rhai a werthir yn eu siopau'n unig? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
40. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 39.
41. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio rhwymedigaeth arall yn lle'r rhwymedigaeth i gymryd yn ôl 0:1 sydd ar gael i werthwyr ar y rhyngryd, fel talu i gynllun, tebyg i'r cynllun cymryd yn ôl presennol, er mwyn cefnogi lefelau uwch o gasglu ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno

- c. Ddim yn siŵr
42. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 41.
43. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid gwella'r gofynion gwybodaeth presennol i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth am eu dewisiadau ailgylchu pan fydd cynnyrch yn cael ei werthu? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
44. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 43.
45. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid symud y pwynt cyfrifoldeb cynhyrchydd i eiddo'r manwerthwr neu'r gwerthwr ar y rhynggrwyd, fel storfa'r manwerthwr, man storio mewn swmp, man dosbarthu? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
46. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 45.
47. A oes unrhyw rwymedigaethau eraill y dylem eu gosod ar fanwerthwyr a/neu werthwyr ar y rhynggrwyd i gynyddu lefelau casglu?
48. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 47.
49. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Marchnadoedd Ar-lein a/neu dai cyflawni gael rhwymedigaethau 'cymryd yn ôl' pan fyddant yn hwyluso cyflenwi'r cynnyrch i ddeiliad y tŷ? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Cytuno
 - Anghytuno
 - Ddim yn siŵr
50. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 49.
51. Am ba hyd y bydd angen i'r diwydiant addasu i'r cynigion a nodir uchod? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- Hyd at 12 mis
 - 12 i 18 mis
 - 18 i 24 mis
 - 24 i 48 mis
52. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 51.

3. Rhwymedigaethau newydd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein a Thai Cyflawni

Cefndir

Mae gwerthiant cyfarpar trydanol yn y DU ar Farchnadoedd Ar-lein yn cynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i [gyfran o 18%](#) o holl farchnad eFasnach y DU. Gellir priodoli hyn i'r ffaith bod dosbarthwyr blaenllaw, gan gynnwys manwerthwyr, wedi ehangu eu presenoldeb ar y rhyngwrwd yn y blynyddoedd diwethaf ac mae cwmnïau o dramor wedi bod yn defnyddio'r rhyngwrwd i gael mynediad at farchnad y DU. Ni waeth a oes gan y busnes bresenoldeb yn y DU ai peidio, mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol fel cynhyrchydd o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff i gofrestru gyda'r asiantaeth amgylcheddol berthnasol ac ymuno â Chynllun Cydymffurfio Cyflenwyr i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

Er eu bod yn hwyluso gwerthiannau yn y DU, nid oes gan Farchnadoedd Ar-lein a thai cyflawni unrhyw rwymedigaethau o dan y Rheoliadau ar hyn o bryd. Y gwerthwr o dramor a fyddai'n cael ei ystyried fel y cynhyrchydd a'r dosbarthwr, ac o ganlyniad byddai ganddo rwymedigaethau cyfreithiol o dan y rheoliadau. Mae'r newidiadau arfaethedig i rwymedigaethau dosbarthwyr ar-lein wedi'u nodi ym Mhennod 2. Mae'r bennod hon yn ceisio mynd i'r afael â diwygiadau i rwymedigaethau presennol cynhyrchwyr mewn perthynas â marchnadoedd ar-lein, tai cyflawni a'u gwerthwyr o dramor.

Mae Marchnad Ar-lein yn cael ei disgrifio fel busnes sy'n defnyddio gwefan neu ap ffôn symudol (fel marchnad, llwyfan neu borth) i ddelio â gwerthu nwyddau i gwsmeriaid sy'n bodloni'r holl amodau canlynol:

- mewn unrhyw ffordd yn gosod y telerau a'r amodau ar sut cyflenwir nwyddau i'r cwsmer
- sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd ag awdurdodi neu hwyluso taliadau cwsmeriaid; ac
- sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd ag archebu neu ddanfôn y nwyddau, gan gynnwys trefnu neu gymryd rhan yn y naill neu'r llall, ond nid hynny'n unig.

Mae'r diffiniad hwn o Farchnad Ar-lein yn cynnwys busnesau sy'n gwerthu nwyddau y maent yn berchen arnynt (er enghraifft, drwy siop ar y we, siop ar ap ar ffonau symudol neu borth e-fasnach arall) neu sy'n cynnig gwerthu nwyddau sy'n eiddo i drydydd parti.

Mae canolfan gyflawni yn fusnes sy'n storio unrhyw nwyddau sy'n bodloni'r holl amodau canlynol:

- maent yn cael eu storio ar ran rhywun (trydydd parti) a sefydlwyd y tu mewn neu'r tu allan i'r DU, neu'n eiddo iddynt
- mae'n cynnig gwasanaethau sy'n fwy na dim ond storio cynnyrch sydd wedi'i baratoi'n llawn. Gallai'r gwasanaethau ychwanegol hyn gynnwys rheoli archebion gan gwsmeriaid, dewis a phacio archeb, rheoli stocrestrau, labelu cynhyrchion, trefnu cludo a danfon y cynnyrch i gwsmer, a rheoli eitemau sy'n cael eu dychwelyd, ond nid y rhain yn unig
- p'un a yw'r nwyddau'n cael eu cynhyrchu yn y DU neu wedi cael eu mewnforio
- p'un a yw'r nwyddau'n cael eu gwerthu yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu gwerthu yn y DU o'r blaen.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn berthnasol os yw'r nwyddau'n cael eu rhyddhau i gylchrediad rhydd ar ôl cael eu storio o dan drefn tollau. Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol p'un a yw lleoliad ffisegol y ganolfan yn y DU ai peidio.

Yr achos dros newid

Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer cynhyrchwyr a nodir yn y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff yn cael eu gorfodi gan reoleiddwyr amgylcheddol pedair gwlad y DU. Y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS) sy'n rheoleiddio'r rhwymedigaethau ar gyfer dosbarthwyr ledled y DU. Fodd bynnag, nid oes gan y rheoleiddwyr hynny awdurdodaeth dramor. Mae nifer o achosion o ddiffyg cydymffurfio ymhlith y gwerthwyr ar-lein hynny nad oes ganddynt bresenoldeb yn y DU. Maent yn aml yn defnyddio Marchnadoedd Ar-lein fel y sianel werthu i roi eu cynnyrch ar farchnad y DU. Mae hyn yn golygu bod cynhyrchwyr cofrestredig yn y DU yn ariannu'r gost o gasglu a thrin swm sylweddol o gyfarpar trydanol ac electronig sy'n cael ei roi ar farchnad y DU gan werthwyr tramor pan ddaw yn wastraff. Mae hyn yn creu annhegwch rhwng cynhyrchwyr cofrestredig a chynhyrchwyr nad ydynt wedi cofrestru. Mae rhai adroddiadau wedi amcangyfrif bod cymaint â 46,000 tonnell o gyfarpar trydanol ac electronig yn cael ei roi ar farchnad y DU bob blwyddyn gan werthwyr tramor drwy Farchnadoedd Ar-lein. O ganlyniad nid yw'r rhwymedigaethau ariannol cysylltiedig ar gyfer y cyfarpar trydanol ac electronig hwn yn cael eu cyflawni.

Nododd [adroddiad y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol](#) i gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a'r economi gylchol y gwahaniaeth hwn ac anogodd y llywodraeth i fynd i'r afael â'r broblem.

Ein cynigion am rwymedigaethau newydd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein a thai cyflawni

Yr egwyddor sylfaenol yn y dyfodol fydd bod Marchnadoedd Ar-lein yn cyfrannu at y rhwymedigaethau ariannol sy'n deillio o gyfarpar trydanol ac electronig sy'n cael ei roi ar y farchnad drwy eu llwyfannau. Gellid creu categori cynhyrchydd newydd ar gyfer marchnadoedd ar-lein, ac o bosibl, tai cyflawni. Byddai'n ofynnol iddynt fodloni rhwymedigaethau cynhyrchwyr a nodir mewn rheoliadau diwygiedig ar ran gwerthwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU. Byddai hyn yn cynnwys y gofyniad i wneud y canlynol:

- cofrestru gyda Chynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr
- cyflwyno data mewn perthynas â chyfanswm y cyfarpar trydanol y mae gwerthwyr o dramor yn eu rhoi ar y farchnad
- talu ffioedd cofrestru i'r rheoleiddiwr amgylcheddol perthnasol
- bodloni eu rhwymedigaethau ariannol drwy fod yn aelod o Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr

Efallai y bydd angen adolygu'r trefniadau codi tâl presennol ar gyfer cynhyrchwyr a Chynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i gydnabod bod categori newydd o gynhyrchydd wedi cael ei greu gyda chostau monitro cydymffurfio gwahanol yn cael eu hysgwyddo gan y rheoleiddiwr ar gyfer y categori newydd hwnnw. Mae'r cynnig yn debyg i'r un a gyhoeddwyd yn [ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio](#). Rydym eisiau archwilio i ba raddau y gallai fod angen caniatáu i lwyfannau ddarparu data pwysau amcangyfrifedig gan ddefnyddio protocolau y cytunwyd arnynt gyda'r rheoleiddwyr amgylcheddol. Y rheswm am hyn yw y gallai mynnu eu bod yn defnyddio data gwirioneddol fod yn rhy feichus ac efallai na fydd rhai marchnadoedd ar-lein yn gallu cael gafael ar ddata yn unol â'r manylder gofynnol yn ymarferol.

Cwestiynau

53. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i Farchnadoedd Ar-lein gyflawni rhwymedigaethau'r cynhyrchydd ar ran eu gwerthwyr tramor? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
 - a. Cytuno

- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

54. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 53.

55. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i dai cyflawni fodloni rhwymedigaethau'r cynhyrchydd ar ran eu gwerthwyr tramor? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

56. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 55.

57. A ydych yn cytuno y dylai marchnadoedd ar-lein/tai cyflawni allu defnyddio data pwysau amcangyfrifedig gan ddefnyddio protocol y cytunwyd arno gyda'r rheoleiddwyr amgylcheddol i ddechrau? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

58. Os ydych wedi ateb 'cytuno' ar gyfer cwestiwn 57, rhowch dystiolaeth i egluro pam na ellir darparu'r union ddata.

59. Pa gostau ychwanegol fydd yn cronni i farchnadoedd ar-lein a thai cyflawni o ganlyniad i gael eu diffinio fel cynhyrchwyr?

60. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 59.

61. Pa ffyrdd eraill, os o gwbl, y dylai'r llywodraeth eu hystyried i fynd i'r afael â'r broblem o werthwyr ar-lein ddim yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff?

62. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 61.

4. Delio ag effeithiau amgylcheddol cynnyrch fepio

Cefndir

Mae fêps, sydd hefyd yn cael eu galw'n e-sigarennau, wedi bod ar gael ers y 2000au cynnar. Mae fêps yn llawer llai niweidiol nag ysmegu gan nad ydynt yn cynnwys tybaco, ac felly maent yn gallu bod yn ddull effeithiol i gefnogi rhywun i roi'r gorau i ysmegu.

Cafodd fêps eu dylunio'n wreiddiol i fod yn rhai y gellir eu haildefnyddio, sy'n golygu y gallai pobl fuddsoddi mewn dyfais fêp ac yna ei ail-lenwi a'i ailwefru i'w ddefnyddio dro ar ôl tro. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn ddiweddar yn nifer y fêps untro (tafladwy) y mae oedolion a phlant yn eu defnyddio. Mae nifer y plant sy'n defnyddio fêps wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf, gydag 20.5% o blant yn rhoi cynnig ar ddefnyddio fêp ym mis Mawrth neu Ebrill 2023.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y llywodraeth ymgynghoriad ledled y DU: ['creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc'](#) yn edrych ar nifer o gamau ehangach i fynd

i'r afael â phobl ifanc yn fepio, gan gynnwys cyfyngu ar y fêps tafladwy sy'n cael eu gwerthu a'u cyflenwi. Anogir rhanddeiliaid sydd â safbwyntiau sy'n ymwneud â fepio ymhlith pobl ifanc, ac yn benodol fêps tafladwy, i ymateb i'r ymgynghoriad sy'n cael ei arwain gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithgynhyrchwyr a mewnforywr holl gynhyrchion fepio yn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol y cynhyrchion hynny pan fyddant yn dod yn wastraff.

Yr achos dros newid

Mae [ymchwil gan Material Focus](#) yn awgrymu bod tua 0.5bn o fêps yn cael eu gwerthu yn y DU bob blwyddyn, gyda nifer sylweddol yn mynd i mewn i'r ffrwd gwastraff gweddilliol bob blwyddyn. Mae fêps yn cynnwys plastig, lithiwm ac elfennau prinfwynau eraill sy'n golygu, os nad yw'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwaredu a'u hailgylchu'n iawn, bod adnoddau allweddol yn cael eu colli. Mae fêps hefyd yn cynnwys batris lithiwm-ion sy'n gallu achosi risg o dân os nad yw'r gwastraff yn cael ei reoli'n briodol. Byddai sicrhau bod y fêps yn cael eu gwaredu'n briodol felly'n arwain at nifer o fanteision i'r amgylchedd naturiol.

Mae'r ymgynghoriad hwn a'r cais am dystiolaeth cysylltiedig yn nodi mesurau amrywiol a ddylai helpu i reoli effeithiau amgylcheddol cynnyrch fepio. Mae Penodau 1 a 2 yr ymgynghoriad hwn yn disgrifio cynigion y bwriedir iddynt ysgogi rhagor o gasgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi drwy sefydlu systemau casglu newydd a gwell trefniadau i ddsbarthwyr gymryd cyfarpar yn ôl, gyda'r negeseuon hyn yn cael eu cyfleu'n briodol. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r rheini sy'n defnyddio fêps wneud yn siŵr eu bod yn cael eu casglu'n briodol i'w hailgylchu, gan sicrhau hefyd bod modd achub adnoddau mwy allweddol sydd i'w cael mewn dyfeisiau fepio a lleihau'r risg o dân yn sgil batris lithiwm-ion mewn gwastraff gweddilliol.

Ym mhennod 1 ein cais am dystiolaeth, rydym hefyd wedi gofyn am farn ynghylch a ddylai cynhyrchwyr ariannu cost clirio eitemau trydanol sy'n cael eu taflu'n aml fel sbwriel. Ar ben hynny, rydym hefyd wedi defnyddio'r cais am dystiolaeth i geisio barn ynghylch i ba raddau y gellid defnyddio diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff i gymell gweithgynhyrchwyr i ddylunio cynhyrchion sy'n para'n hirach, sy'n haws eu hatgyweirio ac sy'n haws eu hailgylchu.

Rydym yn croesawu eich barn ar y mesurau hyn a'r cais i gynhyrchwyr a chynnyrch fêps yn adrannau perthnasol y papurau ymgynghori a'r cais am dystiolaeth.

O dan y rheoliadau presennol, mae cynhyrchion yn cael eu grwpio'n 14 categori. Mae'n rhaid i gynhyrchwyr cynnyrch mewn categori penodol dalu am gost casglu, trin, adfer ac ailgylchu cynhyrchion o'r categori hwnnw pan fyddant yn dod yn wastraff, ar sail eu cyfran o'r farchnad, gan eu cofnodi mewn tunelli.

Ar hyn o bryd mae fêps dod o dan gategori 7, sy'n cynnwys teganau ac offer hamdden, sy'n golygu y bydd gan gynhyrchwyr y math hwn o gyfarpar gyfran o'r rhwymedigaeth i ariannu'r gwaith o gasglu a thrin y cynhyrchion hyn pan fyddant yn dod yn wastraff.

Fodd bynnag, mae pris trin ac ailgylchu fêps, o'i gymharu â mathau eraill o deganau ac offer hamdden yn sylweddol uwch, gyda ffynonellau'r diwydiant yn dyfynnu costau o £13k i £20k y dunnell o'i gymharu â £35 i £270 y dunnell ar gyfer cyfarpar arall sy'n dod o dan gategori 7. Mae hyn yn arwain at dair problem allweddol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt:

- Nid oes angen i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr a chynnyrchwyr sicrhau bod fêps yn cael eu casglu i gyrraedd eu targedau ailgylchu. Y rheswm am hyn yw bod modd cyrraedd targedau drwy ariannu'r gwaith o gasglu unrhyw eitem categori 7

- lle mae fêps yn cael eu casglu i'w hailgylchu gan Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr (er enghraifft, lle mae aelwydydd yn dychwelyd fêps sydd wedi cael eu defnyddio i'w canolfan gwastraff ac ailgylchu awdurdod lleol), bydd cynhyrchwyr categori 7 eraill yn rhannu'r gost sylweddol uwch o drin y fêps hyn. Mae hyn yn cynyddu'r gost o gydymffurfio i'r cynhyrchwyr hyn mewn modd annheg
- mae'r her i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ddsrannu costau casglu a thrin fêps mewn ffordd deg yn ddatgymhelliad iddynt gofrestru cynhyrchwyr fêps

Cynnig 3.1: creu categori newydd, ar wahân ar gyfer fêps.

Bydd creu categori newydd ar gyfer fêps yn sicrhau bod cynhyrchwyr fêps yn talu'r gost lawn o gasglu ac ailgylchu fêps gwastraff ar wahân. Bydd yn dileu'r risg y bydd cynhyrchwyr Categori 7 presennol eraill yn rhoi cymhorthdal ar gyfer y gost o gasglu a thrin fêps. Yn olaf, bydd yn dileu'r risgiau i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr o ran ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â chasglu ac ailgylchu fêps sy'n anghymesur â chyfran eu haelodau yn y farchnad o'r fêps a roddir ar farchnad y DU.

Cwestiynau

63. A ydych yn cytuno â'r cynnig i greu categori newydd ar gyfer fêps? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- (a) Cytuno
 - (b) Anghytuno
 - (c) Ddim yn siŵr
64. Pa gostau ychwanegol fydd yn cronni i gynhyrchwyr, cynlluniau cydymffurfio a rheoleiddwyr o ganlyniad i greu categori newydd ar gyfer fêps? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
65. A oes unrhyw fesurau eraill, y tu hwnt i'r rhai ar gyfer eco-fodiwleiddio a thaflu sbwriel a nodir yn y cais am dystiolaeth, yn eich barn chi, y dylai'r llywodraeth eu cymryd i leihau effaith fêps ar yr amgylchedd? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

5. Llywodraethu'r system, creu Gweinyddwr Cynllun Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a dangosyddion perfformiad Cefndir

Mae'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff yn darparu ar gyfer system sy'n seiliedig ar y farchnad lle mae'n rhaid i gynhyrchwyr ymuno â Chynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau adrodd ac ariannol ar ran eu haelodau sy'n gynhyrchwyr. Mae'r rhwymedigaethau ariannol hynny ar ffurf targedau casglu (mewn tunelli) ar gyfer pob categori o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Ar hyn o bryd mae 26 Cynllun Cydymffurfio Cyflenwyr cofrestredig wedi'u cymeradwyo gan yr asiantaeth amgylcheddol berthnasol. Mae'r system yn sicrhau bod costau casglu a thrin yn briodol ar safleoedd gwastraff cartrefi awdurdodau lleol sydd wedi'u cofrestru o dan Reoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff yn cael eu hariannu gan gynhyrchwyr. Mae hefyd yn darparu bod dosbarthwyr cyfarpar cartrefi yn cael dychwelyd cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff i Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr i sicrhau ei fod yn cael ei drin yn briodol. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion i fynnu bod cynhyrchwyr yn casglu cyfarpar trydanol ac

electronig gwastraff o gartrefi, cynigir bod hyn yn ychwanegol at y rhwymedigaethau ariannol presennol hyn.

Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol ym mhob gwlad yn ymgymryd â gweithgareddau monitro cydymffurfiad rheolaidd ac mae ganddynt bwerau i gymryd camau gorfodi. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cyflawni nifer o swyddogaethau i sicrhau bod y gofynion a nodir yn y Rheoliadau yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gosod targedau casglu gwastraff cartrefi ac ystyried methodoleg ffioedd cydymffurfio bob blwyddyn.

Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo System Cydbwyso Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr bob tair blynedd. Mae'r Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn rhoi sicrwydd i Awdurdodau Lleol y bydd cynhyrchwyr yn ariannu'r gost o gasglu a thrin yn briodol yr holl gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n codi mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref hyd yn oed mewn amgylchiadau lle nad yw awdurdod lleol wedi gallu sicrhau contract casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff gyda Chynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr. Mae'r Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn sicrhau bod costau rheoli cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn cael eu rhannu rhwng pob Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr.

Defnyddir yn aml i ba raddau y mae Cynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr wedi cyrraedd eu targedau casglu a bennir bob blwyddyn ar sail y DU gyfan fel mesur o lwyddiant y system bresennol, ochr yn ochr â chyfradd y cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gesglir, wedi'u mynegi fel canran o'r hyn a roddwyd ar y farchnad. Ond nid yw'r un o'r mesurau hyn yn cael eu hystyried yn ddangosyddion llwyddiant cadarn, ac rydym wedi dweud yn gynharach yn y ddogfen ymgynghori hon ein bod yn bwriadu symud i fesurau sy'n sbarduno ymddygiad ac sy'n cael eu monitro fesul gwlad o leiaf.

Yr achos dros newid

Mae'r system bresennol o dargedau casglu a gefnogir gan ffi cydymffurfio yn cael ei thrafod ymhellach yn y ddogfen gysylltiedig, cais am dystiolaeth. Rydym yn gofyn am ragor o dystiolaeth a safbwyntiau ynghylch i ba raddau y dylai'r system hon aros yr un fath yn fras neu a ydym yn symud i ddull gweithredu gwahanol, gan gynnwys un lle mae Awdurdodau Lleol yn cael eu paru â Chynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr o dan system ddyrannu ganolog.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i benderfynu a yw cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn cael ei symud i'r cartref a sut gallai cynhyrchwyr ariannu gwasanaeth casglu o'r cartref. Ar gyfer manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngwyd, gellid cadw'r ddarpariaeth ar gyfer Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr mewn fformat diwygiedig ar gyfer busnesau bach a delio â rhai o'r heriau sy'n wynebu gwerthwyr ar-lein wrth eu defnyddio. Disgrifir hyn ym Mhennod 2.

Ar hyn o bryd, mae tri sefydliad gwahanol wedi'u cymeradwyo i weithredu'r Ffi Cydymffurfio, Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr a System Cydbwyso Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr. Gellid lleihau'r baich gweinyddol o gymeradwyo a gweithredu pob un o'r systemau hyn pe baent yn cael eu cynnwys o dan un gweinyddwr. Byddai'r symleiddio hwn yn golygu y byddai busnesau sy'n ceisio defnyddio'r darpariaethau hyn yn y dyfodol yn delio ag un sefydliad yn hytrach na thri. Mae canlyniad yr ymgynghoriad a datblygiad polisi pellach sy'n deillio o'r cais am dystiolaeth cysylltiedig yn debygol o nodi swyddogaethau eraill y gallai gweinyddwr eu cyflawni fel y trefniadau cytundebol angenrheidiol ar gyfer sefydlu a gweithredu gwasanaethau casglu gwastraff o gartrefi a darparu gweithgareddau cyfathrebu a reolir yn ganolog wedi'u hanelu at ddeiliaid tai a busnesau.

O ran deunydd pacio, oherwydd natur wahanol y rhwymedigaethau a'r strwythur, mae'n ofynnol i'r swyddogaeth weinyddol fod yn y sector cyhoeddus. Mae'r sefyllfa ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn wahanol, ac felly mae'r llywodraeth yn gofyn am eich barn ar yr egwyddor o sefydlu Gweinyddwr Cynllun, o dan arweiniad y diwydiant, fel dull o lywodraethu a gweinyddu cynlluniau, gan gyflawni swyddogaethau allweddol sy'n angenrheidiol yn y system ddiwygiedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

Rhaid hefyd ystyried i ba raddau y mae targedau ar sail pwysau a'r swmp a gesglir yn fesur digonol a chywir o berfformiad amgylcheddol y system ochr yn ochr â mesurau llwyddiant amgen.

Ein cynigion ar gyfer creu rôl newydd, Gweinyddwr Cynllun, a mesur perfformiad cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y dyfodol

Un dull posibl fyddai'r pedair llywodraeth yn cymeradwyo gweinyddwr ar y cyd. Byddai'n gyfrifol am reoli a gweinyddu swyddogaethau penodol y system ddiwygiedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar ran cynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill. Byddai sut byddai Gweinyddwr Cynllun yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn cyflawni'r canlyniadau a'r targedau y cytunwyd arnynt yn cael ei nodi yn ei delerau cymeradwyo. Byddai meini prawf cymeradwyo yn cael eu nodi mewn rheoliadau.

Rôl allweddol Gweinyddwr y Cynllun fyddai rheoli, ar ran cynhyrchwyr, y gwaith o ddarparu gwasanaethau casglu o gartrefi ledled y DU gan weithio gyda phartneriaid cyflenwi yn ôl yr angen.

Gallai Gweinyddwr y Cynllun o bosibl fod yn ffynhonnell wybodaeth ac arbenigedd i'r llywodraeth ar lefelau strategol a gweithredol mewn rhai meysydd allweddol yn ogystal â bod yn gyfrifol am gyflawni nodweddion allweddol eraill y rheoliadau diwygiedig.

Mae'r Llywodraeth yn ffafrio'n gryf i hyn fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan y sector, sy'n cael ei redeg gan y rheini sydd â'r ddyletswydd i ariannu a darparu'r system ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Byddai model o'r fath yn debyg i'r hyn a gynigir i sefydlu Sefydliadau Rheoli Ernes a fyddai'n gweinyddu'r cynlluniau dychwelyd ernes arfaethedig ar gyfer cynwysyddion diodydd sy'n cael eu sefydlu ledled y DU.

Byddai gan y pedair gwlad yr un faint o awdurdod mewn perthynas â'r gymeradwyaeth angenrheidiol a'r fframwaith llywodraethu ar gyfer Gweinyddwr y Cynllun ar draws y DU, a byddai natur ddatganoledig y polisi hwn yn cael ei pharchu ar yr un pryd, yn ogystal ag atebolrwydd gweinidogion ar lefel gwlad a'r gwahanol linellau sylfaen, y cyd-destun, y polisiau a'r fframweithiau deddfwriaethol ym mhob gwlad.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed a ddylai Gweinyddwr Cynllun cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ymgymryd â nifer o swyddogaethau allweddol mewn perthynas â sicrhau bod y system yn gweithredu'n briodol y tu hwnt i gyflawni rhwymedigaethau casglu o'r cartref a'r cyfathrebu cysylltiedig. Yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad hwn, gallai'r rheini gynnwys y canlynol:

- rheoli'r system Cydbwysu Cynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi (a rhai nad ydynt yn deillio o gartrefi os oes angen)

- gweinyddu Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr (i'w ddefnyddio gan y dosbarthwyr hynny nad oes yn rhaid iddynt gynnig cymryd cyfarpar yn ôl yn y siop o dan y system newydd)
- datblygu a gweinyddu methodoleg ffi cydymffurfio mewn ymgynghoriad â'r holl Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr, i'w chymeradwyo gan y llywodraeth
- darparu tystiolaeth a rhagolygon o'r cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi sy'n debygol o godi – cyflwyno argymhellion i'r llywodraeth i lywio'r gwaith o osod rhwymedigaethau ariannol blyneddol ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi
- eco-fodiwleiddio – cefnogi'r llywodraeth gyda mesurau newydd posibl y gellid eu defnyddio gyda chategoriâu o gynnyrch penodol, gan gynnwys datblygu methodoleg i seilio'r modiwleiddio arni
- asesu ac adrodd ar berfformiad amgylcheddol y system yn y dyfodol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol gydag argymhellion i'r llywodraeth ar fesurau i wella'r perfformiad hwnnw

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae targedau sy'n seiliedig ar bwysau (fel canran o'r tunelledd a roddir ar y farchnad) yn cael eu defnyddio fel mesur o lwyddiant ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid targedau sy'n seiliedig ar bwysau yw'r mesur perfformiad gorau, yn enwedig gan nad yw pwysau cynhyrchion unigol a brynwn yn cyfateb i'r rhai sy'n cael eu taflu. Mewn llawer o achosion, ni fydd prynu cynnyrch yn arwain at waredu cynnyrch tebyg. Felly rydym yn croesawu tystiolaeth a safbwyntiau ynghylch pa ddangosyddion perfformiad eraill y gellid eu defnyddio yn y system yn y dyfodol i fesur llwyddiant. Er enghraifft:

1. Samplu maint/pwysau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn rheolaidd mewn gwastraff gweddilliol, o bosibl yn ôl math o gynnyrch ar draws y DU. Bwriad ein newidiadau arfaethedig yw arwain at leihau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol ac mae hwn yn fetrig allweddol i fesur llwyddiant. Byddai deall y mathau o gynhyrchion mewn gwastraff gweddilliol o bosibl yn helpu i dargedu ymyriadau fel cyfathrebu ar newid ymddygiad.
2. Hwylustod ailgylchu. Cynhyrchu metrig sy'n dangos pa mor bell yw'r manau ailgylchu agosaf ar gyfartaledd o aelwydydd ynghyd â'r gwasanaethau casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi sydd gan Awdurdodau Lleol.
3. Faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd mewn gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ledled y Deyrnas Unedig. Bwriad ein newidiadau yw cynyddu'r opsiynau a'i gwneud yn fwy hwylus i gartrefi a busnesau ddefnyddio llwybrau ailddefnyddio, ailgylchu a gwaredu priodol. Felly, dylai lefelau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ostwng. Byddai adnabod y mathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon yn helpu i dargedu ymyriadau.
4. Mesur ymwybyddiaeth defnyddwyr a pha mor gyfarwydd ydynt â gwerth a chyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio neu ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ac o bosibl ar gelcio cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ledled y DU. Ni fyddai darparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer ailgylchu heb ddeall lefel cymhelliant y defnyddiwr i ailddefnyddio/ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig yn rhoi darlun llawn.
5. Asesu effaith carbon y system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y DU yn rheolaidd.

6. Adroddiadau wedi'u cynllunio i fesur effeithiau nodweddion system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff y DU i annog gwell eco-ddylunio, aildefnyddio a modelau busnes i groesawu'r economi gylchol.
7. Adroddiadau wedi'u cynllunio i fesur gwelliannau yn ansawdd prosesau trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

Mae [Material Focus wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar](#) sef 'An evaluation of suitable metrics to measure the success of the UK's waste electricals and batteries system' sy'n edrych yn fwy manwl ar fesurau llwyddiant eraill.

Rydym am fesur llwyddiant Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff newydd y pedair gwlad. Rydym o'r farn, pa bynnag fesurau llwyddiant sy'n cael eu mabwysiadu ar gyfer y cynllun, y dylid cael rhagdybiaeth o blaid ymgorffori ffactorau sy'n sbarduno perfformiad cyfartal fesul gwlad (er enghraifft, gosod targedau ar lefel gwlad, lle bo hynny'n briodol) a sicrhau bod modd dadansoddi unrhyw fetrigau ychwanegol a ddefnyddiwn i fesur perfformiad y system fesul gwlad.

Byddem hefyd yn croesawu safbwyntiau ar fesurau llwyddiant eraill y gellid eu mabwysiadu i ddangos perfformiad amgylcheddol cyffredinol y system, ynghyd â lefel y manylder a fyddai'n briodol. Rydym am weld data ac adroddiadau ar lefel fwy lleol er mwyn i ni gael darlun gwell o sut mae'r system yn perfformio a gallwn dargedu ymyriadau priodol mewn meysydd lle gallai lefelau perfformiad fod yn isel.

Cwestiynau

66. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor o sefydlu Gweinyddwr Cynllun sy'n cael ei gymeradwyo gan y Llywodraeth ac sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr i gyflawni swyddogaethau penodol yn y system ddiwygiedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
 - a. Cytuno
 - b. Anghytuno
 - c. Ddim yn siŵr
67. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 66.
68. Os mai 'anghytuno' oedd eich ateb i gwestiwn 66, nodwch fanylion dull gweithredu amgen ar gyfer Gweinyddwr Cynllun.
69. Pa rai o'r swyddogaethau canlynol ydych chi'n meddwl y dylai Gweinyddwr y Cynllun eu cyflawni?
 - a. rheoli'r system Cydbwyso Cynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi (a rhai nad ydynt yn deillio o gartrefi os oes angen)
 - b. gweinyddu Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr (i'w ddefnyddio gan y dosbarthwyr hynny nad oes yn rhaid iddynt gynnig cymryd cyfarpar yn ôl yn y siop o dan y system newydd)
 - c. datblygu a gweinyddu methodoleg ffi cydymffurfio mewn ymgynghoriad â'r holl Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr, i'w chymeradwyo gan y Llywodraeth
 - d. darparu tystiolaeth a rhagolygon o'r cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi sy'n debygol o godi – cyflwyno argymhellion i'r llywodraeth i lywio'r

gwaith o osod rhwymedigaethau ariannol blynyddol ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi

- e. eco-fodiwleiddio – cefnogi'r llywodraeth gyda mesurau newydd posibl y gellid eu defnyddio gyda chategoriâu o gynnyrch penodol, gan gynnwys datblygu methodoleg i seilio'r modiwleiddio arni
- f. asesu ac adrodd ar berfformiad amgylcheddol y system yn y dyfodol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol gydag argymhellion i'r llywodraeth ar fesurau i wella'r perfformiad hwnnw

70. A oes unrhyw swyddogaethau ychwanegol y dylai Gweinyddwr y Cynllun eu cyflawni, yn ychwanegol at y rhai a nodir yng nghwestiwn 69?

71. Rhowch unrhyw sylwadau eraill am rôl Gweinyddwr y Cynllun.

72. Pa rai o'r dangosyddion perfformiad amgen a restrir yn yr adran uchod ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid eu cynnwys yn y system yn y dyfodol?

- a. Nifer neu bwysau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol.
- b. Hwylustod ailgylchu.
- c. Faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd mewn gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ym mhob un o'r gwledydd.
- d. Lefel ymwybyddiaeth defnyddwyr o werth a'r cyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio neu ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.
- e. Asesu effaith carbon y system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y DU yn rheolaidd.
- f. Asesu perfformiad economi gylchol y system.
- g. Gwella ansawdd prosesau trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.
- h. Faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff ei ddargyfeirio i'w ailddefnyddio.

73. A oes unrhyw fesurau llwyddiant eraill y dylai'r llywodraeth eu hystyried i asesu perfformiad y system?

74. A ddylid casglu gwybodaeth ar lefel ranbarthol neu leol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Dylid
- b. Na ddylid
- c. Ddim yn siŵr

Rhestr o'r cwestiynau

Amdanoch chi

1. Beth yw eich enw?
2. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?
3. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?
 - corff masnach neu sefydliad arall sy'n cynrychioli busnes
 - cynhyrchydd electronig
 - Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr
 - dosbarthwr (gan gynnwys marchnad ar-lein)
 - cwmni rheoli gwastraff
 - gweithredwr neu ailbroseyydd gwastraff
 - allforiwr
 - llywodraeth leol
 - grŵp cymunedol
 - sefydliad anllywodraethol
 - elusen neu fenter gymdeithasol
 - gweithredwr aildddefnyddio neu atgyweirio
 - ymgynghoriaeth
 - academaidd neu ymchwil
 - unigolyn (hynny yw, ddim yn cynrychioli sefydliad)
 - arall
 - Os ateboch chi 'Arall', rhowch fanylion
4. Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?
 1. Ydw
 2. Nac ydw
5. Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 4, esboniwch yn gryno pam eich bod am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol.

Casglu mwy o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi

6. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaethau cymryd yn ôl eu hunain ar gyfer nwyddau trydanol ac electronig) dalu am gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (er enghraifft, tostwyr, teganau bach ac offer) o gartrefi? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
 1. Cytuno
 2. Anghytuno
 3. Ddim yn siŵr
7. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 6.

8. Gan gydnabod yr angen i gydbwysu amlder gwasanaeth ag effeithlonrwydd, pa mor aml y dylid darparu cylch casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- e. Bob wythnos
- f. Bob pythefnos
- g. Bob mis
- h. Ar alw

9. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 8.

10. A fyddai'n fuddiol darparu ar gyfer gwahanol drefniadau i'w cymhwyso mewn gwahanol ardaloedd yn ôl amgylchiadau, er enghraifft, ar alw mewn rhai ardaloedd a chylch casglu rheolaidd mewn ardaloedd eraill? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb.

11. Yn ôl beth ddylai eitemau sy'n gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn gael eu diffinio:

- 1. Pwysau
- 2. Dimensiynau

12. Nodwch unrhyw gynhyrchion a ddylai, oherwydd eu priodweddau, gael eu heithrio o wasanaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach o gartrefi.

Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb

13. Ar gyfer unrhyw gynhyrchion a restrir mewn ymateb i gwestiwn 12, pa fesurau y dylid eu rhoi ar waith i godi lefelau eu casglu ar wahân er mwyn lleihau faint o wastraff gweddilliol sy'n cael ei waredu?

14. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaethau 'cymryd cyfarpar yn ôl' eu hunain) ariannu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- 1. Cytuno
- 2. Anghytuno
- 3. Ddim yn siŵr

15. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 14.

16. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai Gweinyddwr Cynllun sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr, ac yn cael ei gymeradwyo gan y llywodraeth, sydd yn y sefyllfa orau i bennu'r mecanwaith mwyaf ymarferol ac effeithlon i reoli rhwymedigaethau cynhyrchwyr i ariannu casgliadau cyfarpar trydanol ac electronig bach a mawr o gartrefi? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- d. Cytuno
- e. Anghytuno
- f. Ddim yn siŵr

17. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 16.

18. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gwaith mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gyflawni'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff cartref rheolaidd ar

gyfer cyfarpar trydanol ac electronig bach a chasgliadau gwastraff swmpus ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr yn debygol o gael ei gyflawni drwy bartneriaethau rhwng Gweinyddwr Cynllun ac Awdurdodau Lleol a'u partneriaid rheoli gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- d. Cytuno
- e. Anghytuno
- f. Ddim yn siŵr

19. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 18.

20. Os ydych chi wedi rhoi 'cytuno' fel ateb i gwestiwn 16, pa fesurau diogelu, os o gwbl, allai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod costau a wynebwr gan gynhyrchwyr wrth fodloni rhwymedigaeth casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi yn adlewyrchu gwir gostau'r ddarpariaeth drwy eu partneriaid gwasanaeth?

21. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dadansoddiad o'r cynnig hwn a nodir yn yr Aseiad o Effaith cysylltiedig? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- 1. Cytuno
- 2. Anghytuno.
- 3. Ddim yn siŵr

22. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 21.

23. A oes ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaeth casglu cost-effeithiol ac effeithlon o gartrefi yn unol â'r hyn a ddisgrifir yng nghwestiwn 18, gyda phartneriaid cyflenwi eraill yn hytrach nag Awdurdodau Lleol, ac os felly, sut beth fyddai hynny?

24. Rhowch unrhyw sylwadau eraill a thystiolaeth ategol ar y cynnig i gynhyrchwyr (a dosbarthwyr nad ydynt yn darparu gwasanaethau cymryd yn ôl) ariannu system o gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach ar garreg y drws a chasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mawr ar alw ar gyfer aelwydydd?

25. Mae cynhyrchwyr sy'n gosod llai na phum tunnell o gyfarpar ar farchnad y DU bob blwyddyn wedi'u heithrio o rwymedigaethau ariannol o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff. A yw'r trothwy pum tunnell hwnnw'n dal yn briodol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- 1. Ydy
- 2. Nac ydy
- 3. Ddim yn siŵr

26. Os ateboch chi 'nac ydy' i gwestiwn 25, pa drothwy tunelledd sy'n briodol? Rhowch dystiolaeth i gefnogi trothwy amgen

27. A oes dulliau amgen nad ydynt yn rheoleiddiol y gellid eu sefydlu i gynyddu casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar wahân o gartrefi i'w aildefnyddio a'i ailgylchu? Os felly, disgrifiwch sut bethau fyddai'r dulliau hyn.

Cynyddu seilwaith casglu dosbarthwyr

28. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai manwerthwyr a gwerthwyr ar y rhyngryd ddarparu "gwasanaeth casglu wrth ddanfôn" yn rhad ac am ddim, sy'n ei gwneud yn ofynnol i offer domestig mawr fel peiriannau golchi dillad, peiriannau golchi llestri, oergelloedd, rhewgelloedd a setiau teledu gael eu dychwelyd am ddim? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- d. Cytuno
 - e. Anghytuno
 - f. Ddim yn siŵr
29. Os ydych wedi ateb 'cytuno' i gwestiwn 28, a ddylid pennu amserlen resymol ar gyfer casglu'r eitem nad oes ei hangen er mwyn caniatáu ar gyfer amgylchiadau lle nad yw ar gael i'w chasglu ar adeg danfôn? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- d. Dylid
 - e. Na ddylid
 - f. Ddim yn siŵr
30. Os ydych wedi ateb 'dylid' i gwestiwn 29, beth ddylai'r amserlenni hyn fod?
- e. 2 ddiwrnod
 - f. 5 diwrnod
 - g. 10 diwrnod
 - h. Na, ni ddylid pennu amserlen resymol.
31. Os ydych wedi ateb 'cytuno' i gwestiwn 28, a ddylid ymestyn y gwasanaeth hwn i gasglu eitemau llai pan fydd eitem fawr yn cael ei chasglu? Os felly, a ddylai hyn fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhesymol o ran faint o eitemau y gellir eu dychwelyd ar unwaith? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
1. Dylai
 2. Na ddylai
 3. Ddim yn siŵr
32. A ddylai manwerthwyr sy'n gwerthu offer newydd i'r cartref fel rhan o gegin newydd hefyd orfod mynd â'r hen offer o'r cartref yn rhad ac am ddim? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
1. Dylai
 2. Na ddylai
 3. Ddim yn siŵr
33. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 32.
34. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem ymestyn y gofynion cymryd yn ôl presennol ar gyfer manwerthwyr mawr o sail 1:1 i 0:1, hynny yw, fel nad oes yn rhaid prynu eitem er mwyn i'r rhwymedigaeth cymryd yn ôl fod yn berthnasol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
1. Cytuno
 2. Anghytuno
 3. Ddim yn siŵr
35. Os ydych wedi ateb 'cytuno' i gwestiwn 34, a ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai rhwymedigaeth o'r fath fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhesymol o ran faint o

gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n cael ei ddychwelyd gan bob deiliad tŷ? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

36. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r diffiniad o "fanwerthwr mawr" fod yn unrhyw fusnes sydd â throsiant blynyddol o dros £100k o gyfarpar trydanol ac electronig? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

37. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 36.

38. Os ateboch chi 'anghytuno' i gwestiwn 36, beth ddylai trothwy amgen fod? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

39. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cyfyngu'r rhwymedigaeth i fanwerthwyr yn cymryd eitemau sy'n debyg i'r rhai a werthir yn eu siopau'n unig? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

40. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 39.

41. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio rhwymedigaeth arall yn lle'r rhwymedigaeth i gymryd yn ôl 0:1 sydd ar gael i werthwyr ar y rhyngwyd, fel talu i gynllun, tebyg i'r cynllun cymryd yn ôl presennol, er mwyn cefnogi lefelau uwch o gasglu ar gyfer aildefnyddio ac ailgylchu? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

42. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 41.

43. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid gwella'r gofynion gwybodaeth presennol i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth am eu dewisiadau ailgylchu pan fydd cynnyrch yn cael ei werthu? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

44. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 43.

45. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid symud y pwynt cyfrifoldeb cynhyrchedd i eiddo'r manwerthwr neu'r gwerthwr ar y rhyngwyd, fel storfa'r manwerthwr, man storio mewn swmp, man dosbarthu? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

46. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 45.

47. A oes unrhyw rhwymedigaethau eraill y dylem eu gosod ar fanwerthwyr a/neu werthwyr ar y rhyngwyd i gynyddu lefelau casglu?

48. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 47.

49. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Marchnadoedd Ar-lein a/neu dai cyflawni gael rhwymedigaethau 'cymryd yn ôl' pan fyddant yn hwyluso cyflenwi'r cynnyrch i ddeiliad y tŷ? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

50. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 49.

51. Am ba hyd y bydd angen i'r diwydiant addasu i'r cynigion a nodir uchod? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- b. Hyd at 12 mis
- c. 12 i 18 mis
- d. 18 i 24 mis
- e. 24 i 48 mis

52. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 51.

Rhwymedigaethau newydd ar gyfer cynhyrchwyr ar gyfer Marchnadoedd Ar-lein a Thai Cyflawni

53. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i Farchnadoedd Ar-lein gyflawni rhwymedigaethau'r cynhyrchydd ar ran eu gwerthwyr tramor? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- d. Cytuno
- e. Anghytuno
- f. Ddim yn siŵr

54. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 53.

55. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i dai cyflawni fodloni rhwymedigaethau'r cynhyrchydd ar ran eu gwerthwyr tramor? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

56. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 55.

57. A ydych yn cytuno y dylai marchnadoedd ar-lein/tai cyflawni allu defnyddio data pwysau amcangyfrifedig gan ddefnyddio protocol y cytunwyd arno gyda'r rheoleiddwyr amgylcheddol i ddechrau? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

1. Cytuno
2. Anghytuno
3. Ddim yn siŵr

58. Os ydych wedi ateb 'cytuno' ar gyfer cwestiwn 57, rhowch dystiolaeth i egluro pam na ellir darparu'r union ddata.

59. Pa gostau ychwanegol fydd yn cronni i farchnadoedd ar-lein a thai cyflawni o ganlyniad i gael eu diffinio fel cynhyrchwyr?

60. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 59.

61. Pa ffyrdd eraill, os o gwbl, y dylai'r llywodraeth eu hystyried i fynd i'r afael â'r broblem o werthwyr ar-lein ddim yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff?

62. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 61.

Delio ag effeithiau amgylcheddol cynnyrch fepio

63. A ydych yn cytuno â'r cynnig i greu categori newydd ar gyfer fêps? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- (a) Ydw
- (b) Nac ydw
- (c) Ddim yn siŵr

64. Pa gostau ychwanegol fydd yn cronni i gynhyrchwyr, cynlluniau cydymffurfio a rheoleiddwyr o ganlyniad i greu categori newydd ar gyfer fêps? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

65. A oes unrhyw fesurau eraill, y tu hwnt i'r rhai ar gyfer eco-fodiwleiddio a thafu sbwriel a nodir yn y cais am dystiolaeth, yn eich barn chi, y dylai'r llywodraeth eu cymryd i leihau effaith fêps ar yr amgylchedd? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb. .

Llywodraethu'r system, creu Gweinyddwr Cynllun Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a dangosyddion perfformiad

66. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor o sefydlu Gweinyddwr Cynllun sy'n cael ei gymeradwyo gan y Llywodraeth ac sy'n cael ei arwain gan gynhyrchwyr i gyflawni swyddogaethau penodol yn y system ddiwygiedig ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn siŵr

67. Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ateb i gwestiwn 66.

68. Os mai 'anghytuno' oedd eich ateb i gwestiwn 66, nodwch fanylion dull gweithredu amgen ar gyfer swyddogaethau arfaethedig Gweinyddwr Cynllun.
69. Pa rai o'r swyddogaethau canlynol ydych chi'n meddwl y dylai Gweinyddwr y Cynllun eu cyflawni?
- i. rheoli'r system Cydbwysu Cynhyrchwyr ar gyfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi (a rhai nad ydynt yn deillio o gartrefi os oes angen)
 - ii. gweinyddu Cynllun Cymryd yn ôl Dosbarthwyr (i'w ddefnyddio gan y dosbarthwyr hynny nad oes yn rhaid iddynt gynnig cymryd cyfarpar yn ôl yn y siop o dan y system newydd)
 - iii. datblygu a gweinyddu methodoleg ffi cydymffurfio mewn ymgynghoriad â'r holl Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr, i'w chymeradwyo gan y Llywodraeth
 - iv. darparu tystiolaeth a rhagolygon o'r cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi sy'n debygol o godi – cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth i lywio'r gwaith o osod rhwymedigaethau ariannol blynyddol ar Gynlluniau Cydymffurfio Cynhyrchwyr ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o gartrefi
 - v. eco-fodiwleiddio – cefnogi'r llywodraeth gyda mesurau newydd posibl y gellid eu defnyddio gyda chategoriâu o gynnyrch penodol, gan gynnwys datblygu methodoleg i seilio'r modiwleiddio arni
 - vi. asesu ac adrodd ar berfformiad amgylcheddol y system yn y dyfodol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol gydag argymhellion i'r llywodraeth ar fesurau i wella'r perfformiad hwnnw
70. A oes unrhyw swyddogaethau ychwanegol y dylid eu hychwanegu?
71. Rhowch unrhyw sylwadau eraill am rôl Gweinyddwr y Cynllun.
72. Pa rai o'r dangosyddion perfformiad amgen a restrir yn yr adran uchod ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid eu cynnwys yn y system yn y dyfodol?
- a. Nifer neu bwysau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn gwastraff gweddilliol.
 - b. Hwylustod ailgylchu.
 - c. Faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sydd mewn gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ym mhob un o'r gwledydd.
 - d. Lefel ymwybyddiaeth defnyddwyr o werth a'r cyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio neu ailgylchu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.
 - e. Asesu effaith carbon y system cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn y DU yn rheolaidd.
 - f. Asesu perfformiad economi gylchol y system.
 - g. Gwella ansawdd prosesau trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.
 - h. Faint o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a gaiff ei ddargyfeirio i'w ailddefnyddio.
73. A oes unrhyw fesurau llwyddiant eraill y dylai'r llywodraeth eu hystyried i asesu perfformiad y system?

74. A ddylid casglu gwybodaeth ar lefel ranbarthol neu leol? Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:
- a. Dylid
 - b. Na ddylid
 - c. Ddim yn siŵr

Geirfa

ATF

Cyfleuster Trin Awdurdodedig

- Unrhyw safle gwastraff sydd â thrwydded neu esemptiad trwydded

AATF

Cyfleuster Trin Awdurdodedig Cymeradwy

- Cyfleuster Trin Awdurdodedig gyda chymeradwyaeth ychwanegol sy'n caniatáu iddo gyhoeddi tystiolaeth ynghylch ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.
- Rhaid iddo fod wedi cael caniatâd i dderbyn a thrin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r esemptiad hwn wedi'i ymgorffori ym Mharagraff 49, Atodlen 2, Rhan I o'r Rheoliad Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Gogledd Iwerddon) 2003 (fel y'i diwygiwyd).

Banc casglu

Cynwysyddion yn y gymuned lle gall trigolion lleol roi rhai mathau o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu.

DCF

Cyfleuster Casglu Dynodedig

- Safle sydd wedi'i gymeradwyo i gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o dan y Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.
- Rhaid cydymffurfio â Chod Ymarfer y Cyfleuster Casglu Dynodedig

DAERA

Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

- Mae gan DAERA gyfrifoldeb dros bolisi bwyd, ffermio, amgylcheddol, pysgodfeydd, coedwigaeth a chynaliadwyedd a datblygu'r sector gwledig yng Ngogledd Iwerddon
- Mae'r Adran yn cynorthwyo datblygiad cynaliadwy'r sectorau bwyd-amaeth, amgylcheddol, pysgota a choedwigaeth yn economi Gogledd Iwerddon

Defra

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

- Yr adran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelu ein hamgylchedd naturiol, cefnogi ein diwydiant bwyd a ffermio sydd gyda'r gorau yn y byd, a chynnal economi wledig ffyniannus
- Mae'n rheoli'r gwaith o Benodi System Gydbwyso Cynhyrchwyr
- Mae'n rheoli'r gwaith o benodi gweithredwr y Ffi Cydymffurfio

Mae'n cyhoeddi Cod Ymarfer Cyfleusterau Casglu Dynodedig

Dosbarthwr

Ystyr "dosbarthwr" yw unrhyw berson yn y gadwyn gyflenwi sy'n darparu eitem o gyfarpar trydanol ac electronig ar y farchnad.

DTS

Cynllun cymryd yn ôl dosbarthwyr

- System sy'n cael ei harwain gan y diwydiant sy'n caniatáu i ddosbarthwyr (gan gynnwys manwerthwyr) ariannu rhwydwaith o gyfleusterau casglu (cyfleusterau casglu dynodedig)
- Mae pob Awdurdod Lleol wedi cofrestru fel cyfleuster casglu dynodedig
- Rhaid i bob dosbarthwr nad yw wedi cofrestru ar y cynllun hwn gynnig yr opsiwn o gymryd cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff cartrefi yn ôl yn y siop

EEE

Cyfarpar Trydanol ac Electronig

- Ystyrir bod yr holl eitemau trydanol ac electronig o fewn cwmpas Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (2013) oni bai eu bod yn bodloni un o'r esemptiadau fel y nodir yn rheoliad 7 o'r Rheoliadau hynny

EPR

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

- Mae hwn yn ddull polisi lle rhoddir cyfrifoldeb sylweddol i gynhyrchwyr – ariannol a/neu ffisegol – ar gyfer trin neu waredu'r cynhyrchion y maent yn eu rhoi ar y farchnad pan fyddant yn dod yn wastraff

Tŷ cyflawni

Busnes sy'n storio unrhyw nwyddau sy'n bodloni'r holl amodau canlynol:

- Maent yn cael eu storio ar ran rhywun (trydydd parti) a sefydlwyd y tu mewn neu'r tu allan i'r DU, neu'n eiddo iddynt.
- Mae'n cynnig gwasanaethau sy'n fwy na dim ond storio cynnyrch sydd wedi'i baratoi'n llawn. Gallai'r gwasanaethau ychwanegol hyn gynnwys rheoli archebion gan gwsmeriaid, dewis a phacio archeb, rheoli stocrestrau, labelu cynhyrchion, trefnu cludo a danfon y cynnyrch i gwsmer, a rheoli eitemau sy'n cael eu dychwelyd, ond nid y rhain yn unig.
- P'un a yw'r nwyddau'n cael eu cynhyrchu yn y DU neu wedi cael eu mewnforio.
- P'un a yw'r nwyddau'n cael eu gwerthu yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu gwerthu yn y DU o'r blaen.

HWRC

Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref

- Mae'r rhain yn cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol fel man lle gall preswylwyr gael gwared ar wastraff eu cartref a deunydd i'w ailgylchu yn ddiogel, yn rhad ac am ddim fel arfer.

Bydd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn cofrestru eu Canolfannau fel Cyfleuster Casglu Dynodedig er mwyn gallu derbyn cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

Marchnad ar-lein

Busnes sy'n defnyddio gwefan neu ap ffôn symudol (fel marchnad, llwyfan neu borth) i ddelio â gwerthu nwyddau i gwsmeriaid sy'n bodloni'r holl amodau canlynol:

- mewn unrhyw ffordd yn gosod y telerau a'r amodau ar sut cyflenwir nwyddau i'r cwsmer;
- sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd ag awdurdodi neu hwyluso taliadau cwsmeriaid; ac
- sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd ag archebu neu ddanfôn y nwyddau, gan gynnwys trefnu neu gymryd rhan yn y naill neu'r llall, ond nid hynny'n unig.

PBS

System Cydbwyso Cynhyrchwyr

- Mae hyn wedi cael ei gyflwyno i sicrhau bod cost casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ar gais Awdurdodau Lleol yn cael ei rannu ymysg yr holl Gynlluniau Cydymffurfio.
- Mae "cais rheoliad 34" yn gais bod yn rhaid i Gynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr gasglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o safle awdurdod lleol o fewn pum diwrnod gwaith a thalu'r holl gostau casglu a thrin cysylltiedig).

PCS

Cynllun cydymffurfio cynhyrchwyr

- 'Mae Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn sefydliad ar gyfer aelodau. Cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig yw'r aelodau.
- Mae Cynllun Cydymffurfio Cynhyrchwyr yn gyfrifol am gofrestru ei holl aelodau bob blwyddyn a rhaid iddo:
 - sicrhau ei fod yn bodloni ei rwymedigaethau ariannol o dan y rheoliadau cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

cyflawni ei rwymedigaethau o ran adrodd ar ddata

WEEE

Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff

- Mae cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn golygu unrhyw wastraff trydanol neu electronig, p'un a yw'n gyfan neu wedi torri, sy'n mynd i gael ei waredu.

Rheoliadau WEEE

Rhestr o ffynonellau tystiolaeth

[Waste electricals: towards a circular economy - Research & reports - Recycle Your Electricals](#)

[DSS \(2023\) 'Implementing eco-modulation into the UK's WEEE system and exploring resource efficiency and eco-design for energy-related products'](#)

[A UK WEEE matching system: a feasibility study - Recycle Your Electricals](#)

[Eunomia \(2019\) Electrical and electronic equipment: Ingredients for Successful Extended Producer Responsibility](#)

[UN Environment Programme \(2017\) 'The Long View: Exploring Product Lifetime Extension'](#)

[An assessment of the levels of persistent organic pollutants \(POPs\) in waste electronic and electrical equipment in England and Wales \(icer.org.uk\)](#)

[Material Focus \(2020\) 'Electrical Waste: Challenges and Opportunities' -](#)

<https://wrap.org.uk/resources/reprort/quantifying-composition-municipal-waste>

Research to identify and address gaps in existing WEEE data relative to the on-going policy review, Anthesis 2022

[Material-Focus-Update-to-A-Review-Economic-and-Environmental-of-Kerbside-Collections-for-Waste-Electricals-March-2022.pdf \(squarespace.com\)](#)

[Material Focus \(2022\) 'New metrics that could help drive circularity in the UK's waste electricals and portable battery systems':](#)

[Valuation of externalities of selected waste management alternatives: A comparative review and analysis - ScienceDirect](#)

[DEFRA \(2021\) Fly-tipping statistics for England, 2020 to 2021 \(Rhagfyr 2021\).](#)

[Resilience for the Future: The United Kingdom's Critical Mineral Strategy \(2022\)](#)

World Energy Outlook, International Energy Agency, 13 Hydref 2021; The Role of Critical Minerals in Clean Energy Transitions, International Energy Agency, 5 Mai 2021.

[A review of the environmental fate and effects of hazardous substances released from electrical and electronic equipment during recycling: Examples from China and India - ScienceDirect](#)

[Electronic waste and their leachates impact on human health and environment: Global ecological threat and management - ScienceDirect](#)

[Evidence Review of Fly-tipping Behaviour.pdf \(zerowastescotland.org.uk\)](#)

Adroddiad Cyngor Dosbarth Canol Sussex: [Proposal for an Enhanced Recycling Collection Service for Textiles and Small Waste Electrical and EI.pdf \(moderngov.co.uk\)](#)

<https://www.eunomia.co.uk/reports-tools/the-climate-change-impacts-of-recycling-services-in-wales>

Eunomia: Ditching Diesel central assumption for residual RCV round mileage

[Valuation of greenhouse gas emissions: for policy appraisal and evaluation 2021, Annex 1,](#)

<https://www.gov.uk/government/consultations/packaging-and-packaging-waste-introducing-extended-producer-responsibility>

<https://www.gov.uk/government/collections/business-population-estimates>

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/827960/RPC_Small_and_Micro_Business_Assessment_SaMBA_August_2019.pdf

European Commission analysis of the WEEE value chain summarised by Anthesis to Steel, Aluminium, Glass, and Dense Plastics.

[The Green Book: appraisal and evaluation in central government - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#), tudalen 63

[Electronic waste and their leachates impact on human health and environment: Global ecological threat and management - ScienceDirect](#)

[Valuation of externalities of selected waste management alternatives: A comparative review and analysis - ScienceDirect](#)

[Mineral Extraction - an overview | ScienceDirect Topics](#)

[Increased carbon footprint of materials production driven by rise in investments | Nature Geoscience metals environmental risks report english.pdf](#)

[Royal Society of Chemistry and Ipsos Mori \(2019\): Elements in Danger – Consumer survey](#)

Dale, L. a Fujita, S. (2008), “*An Analysis of the Price Elasticity of Demand for Household Appliances*”; University of California Berkeley, (Chwefror 2008).

Green Alliance: levelling up through circular economy jobs - <https://green-alliance.org.uk/publication/levelling-up-through-circular-economy-jobs/>

[25 Year Environment Plan - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

[Clean Growth Strategy - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

